

ADRODDIAD BLYNYDDOL ANNUAL REPORT

2015.16



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Adroddiad Blynyddol

Annual Report 2015·16

Cyngor Llyfrau Cymru

Welsh Books Council

Swyddogaeth

- ▶ Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall.
- ▶ Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgysylltu buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.
- ▶ Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwr.
- ▶ Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Cyllid

- ▶ Oddi ar Ebrill 2002 ariennir y Cyngor Llyfrau'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.
- ▶ Oddi ar Ebrill 2003 trosglwyddwyd cyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru ym maes cyhoeddi i'r Cyngor Llyfrau.

Purpose

- ▶ To stimulate interest in books in Welsh and Welsh books in English, together with other related material.
- ▶ To promote the publishing industry in Wales and to coordinate the interests of authors, publishers, booksellers and libraries.
- ▶ To assist and support authors by providing services and by awarding grants/commissions which are channelled through publishers.
- ▶ To distribute grants to help publish quality material in both Welsh and English and to ensure that the output is widely available.

Funding

- ▶ Since April 2002 the Welsh Books Council has been funded directly by the Welsh Government.
- ▶ From April 2003 the responsibilities of the Arts Council of Wales in the field of publishing were transferred to the Welsh Books Council.

Y Cyngor a'i bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Gyngor a Phwyllgor Gwaith a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru, a chroestoriad o sefydliadau diwylliannol Cymru. [Am restr o'r aelodau, gweler tt. 56–7.] Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yw ymddiriedolwyr yr elusen. Un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith yw'r Panel Enwebiadau sy'n penodi aelodau i'r panelau arbenigol sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Swyddogaeth y Panel Enwebiadau yw sicrhau bod y drefn o benodi aelodau i'r panelau, trwy hysbysebu agored, yn deg a thryloyw, yn unol â threfn arfer gorau.

Y mae'r Cyngor Llyfrau'n paratoi Cynllun Gweithredol blynyddol, a'r ddogfen hon sy'n cyfeirio gwaith y sefydliad. [Ceir copi o'r ddogfen ar wefan y Cyngor: www.clc.org.uk] Y mae Llythyr Grant Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r hyn y mae'n ofynnol i'r sefydliad ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru. Sefydliad anghorfforedig annibynnol a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig yw'r Cyngor Llyfrau.

The Council and its committees

The Books Council is governed by a Council and Executive Committee which are appointed under the terms of its Constitution, and comprise representatives of local authorities, and a cross-section of the cultural organisations of Wales. [For a list of members, see pp. 56–7.] Members of the Executive Committee serve as trustees of the charity. The Nominations Panel, a sub-committee of the Executive Committee, appoints members to specialist panels which report to the Executive Committee. The function of the Nominations Panel is to ensure that the system of appointing members, through an open advertising process, is conducted with fairness and transparency, in line with best practice.

The Books Council prepares an annual Operational Plan, which directs the work of the organisation. [A copy can be found on the Council's website: www.wbc.org.uk] A Grant Letter outlines the Welsh Government's requirements of the Council during the year.

Constitution

The governing instrument of the Welsh Books Council is a written constitution. The Welsh Books Council is an independent, unincorporated association established for charitable purposes only.



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

© FFERGI i FFARO Stori Brytan yr Ogeir

BETHAN GWANAS

I BOTANI

The Curlew's Cry

TIA JONES

THE PEN Y GWRYD HOTEL

TALES FROM THE MOUNTAINS

PATAGONIA 150

Nicola Davies • Cathy Fisher

THE DOG IN THE PARK

Y MAWR

Y MABINOCH




Cyflwyniad y Cadeirydd Chairman's Introduction

PA FATH o flwyddyn gawsom ni y llynedd? Cafwyd cyfnod da. Cafwyd cyfnod gwael. Daeth y cyfnod gwael ychydig cyn y Nadolig, pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru doriadau ariannol sylweddol oedd yn peryglu nid yn unig y system o grantiau i gefnogi cyhoeddi yng Nghymru, ond hefyd holl isadeiledd y diwydiant a adeiladwyd trwy chwys a llafur cynifer o bobl dros ddegawd a rhagor. Gwawriodd y cyfnod da yn fuan ar ôl y Nadolig, pan gymerodd y Llywodraeth y penderfyniad doeth i ailsefydlu'r trefniadau ariannu a oedd eisoes mewn grym. Daeth y cyhoeddiad hwn yn sgil ymgyrch hynod drawiadol – ac effeithiol, yn ôl pob golwg – a drefnwyd gan y diwydiant llyfrau yng Nghymru, ar draws y ddau ddiwylliant, o blaid tro pedol, ymgyrch a atgyfnerthwyd gan gefnogaeth amhrisiadwy nifer o ffigurau allweddol o fewn y sefydliad gwleidyddol. Ac efallai mai'r peth gorau oll oedd y teimlad o gydgefnogaeth a'r gydnabyddiaeth o nod cyffredin a ysgogwyd ymhlith awduron a gweithwyr proffesiynol y diwydiant ar draws y ddau ddiwylliant, ynghyd â chynnydd amlwg yn yr ymwybyddiaeth o ba mor ddyledus y bu ac y mae'r diwydiant llyfrau yng Nghymru i'r system o gymorth gwladol a'i galluogodd i dyfu ac i ffynnu.

Cafwyd cydnabyddiaeth hynaws o'r ddyled hon gan Horatio Clare yn y *Guardian* wrth iddo dderbyn gwobr Branford Boase am y llyfr gorau o waith awdur newydd ar gyfer oedolion ifanc (grŵp oedran sy'n nodedig o anodd i'w ddenu at ddarllen). 'Mae'r cymorth gwladol a geir ar gyfer awduron yng

WHAT KIND of year has it been? It has been the best of times. It has been the worst of times. The latter arrived just before Christmas, with the announcement by the Welsh Government of significant cuts that threatened not only the grant-support system for Welsh publishing but also the very infrastructure of the industry, that had been laboriously and painstakingly built up over a decade and more. The best of times arrived not very long after Christmas, when the Government sensibly announced a reversion to the established funding arrangements, an announcement that came in the wake of a very impressive – and presumably effective – campaign by the Welsh book industry across both its cultures in favour of a rethink, a campaign reinforced by invaluable support from key figures within the political establishment. And perhaps the very best aspect of the whole affair was the sense of solidarity and recognition of common purpose it generated amongst writers and industry professionals right across the culture divide, along with a greatly heightened awareness of how indebted the business of books in Wales had been, and continued to be, to the state support system that had enabled it to grow and to flourish.

This indebtedness was graciously acknowledged in the *Guardian* by Horatio Clare when receiving the Branford Boase prize for the best book for young adults (a notoriously difficult age-group to attract to reading) by a new author. 'State support for writers in Wales is exemplary,' said Horatio Clare. 'I and many



Ion Thomas, cadeirydd Cyfeillion y Cyngor Llyfrau (chwith), yn croesawu Alan Llwyd ac M. Wynn Thomas yn y Cyfarfod Blynyddol
 Ion Thomas, chair of the Friends of the Welsh Books Council (left), welcoming Alan Llwyd and M. Wynn Thomas at the Annual Meeting

Nghymru yn rhagorol,' meddai Horatio Clare. 'Rwyf i a llawer o awduron Cymreig eraill yn gweithio i ad-dalu'r gefnogaeth a'r ffydd a ddangoswyd i ni gan y weithrediaeth a chan bobl Cymru, gyda llyfrau a fydd yn teithio ac yn parhau. Mae'r wob'r hon yn perthyn iddynt hwy gymaint ag i mi.' Roedd elfen o eironi yn ei sylwadau hael; cyhoeddwyd ei lyfr gan Firefly, y wasgnod newydd a sefydlwyd o ganlyniad i grant un-tro a ddyfarnwyd i'r Cyngor Llyfrau gan Huw Lewis – y Gweinidog dros Ddiwylliant ar y pryd – i roi hwb i gyhoeddi llyfrau i blant hŷn ac oedolion ifanc. Daeth cyfnod y cynllun grant hwn i ben dros flwyddyn yn ôl, ac ni chafodd ei adnewyddu.

Roedd sylwadau Horatio Clare yn adlewyrchu'r gymeradwyaeth uchel a nodwyd yn ymchwiliad Martin Rolph i raglen y Cyngor Llyfrau o wasanaethau cymorth – ymchwiliad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ryw ddwy flynedd yn ôl. Eleni, gwelwyd ymchwiliad pellach yn cael ei roi ar waith; y tro hwn, mae iddo faes gorchwyl ehangach, sef archwilio ac asesu'r holl ystod o ddarpariaethau sydd ar gael i awduron a chyhoeddwr ar draws y sector gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y panel, sy'n cwrrdd dan gadeiryddiaeth yr Athro Medwin Hughes, yn cyflwyno'i adroddiad yn

other Welsh writers are working to repay the support and faith placed in us by the executive and the people of Wales, with books which will travel and last. This award is theirs as much as mine.' His generous remarks were not without their irony. His book had been published by Firefly, the new imprint whose start-up had been enabled by the Books Council thanks only to a one-off grant by the then Minister for Culture, Huw Lewis, to kick-start publishing for older children and young adults. It was a grant scheme whose term expired over a year ago, and it has not been renewed.

Horatio Clare's comments echoed the highly favourable commendations recorded in the Martin Rolph enquiry into the Welsh Books Council's programme of support services commissioned some two years ago by the Welsh Government. This year has seen a further enquiry initiated, this time with a wider brief – to examine and assess the whole range of provision available to writers and publishers right across the public service sector in Wales. Meeting under the chairmanship of Professor Medwin Hughes, the panel is due to submit its report this autumn. Its findings are certain to be crucial ones for the future of the publishing industry in Wales, particularly given

yr hydref. Yn sicr, bydd ei ganfyddiadau'n hollbwysig i ddyfodol y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd barhaus o lymder sydd yn ein hwynebu (ac sy'n debygol o ddwysáu). Ond – fel y cadarnhawyd mewn datganiadau cyhoeddus a swyddogol yn ddiweddar – mae gan y Cyngor Llyfrau enw da haeddiannol ers blynyddoedd lawer am ei effeithiolrwydd a'r modd y mae'n darparu gwerth am arian; oherwydd hynny, mae ganddo bob rheswm, ar adeg ysgrifennu'r geiriau hyn, i ddisgwyl canlyniad yr adroddiad â theimlad o hyder tawel gan ochel, wrth reswm, rhag unrhyw ymdeimlad o hunanfodlonrwydd.

Bellach, gyda'r trefniadau newydd ar gyfer ailstrwythuro'n llwyr y broses o ariannu'r cyfnodolion Cymraeg a Saesneg wedi hen ennill eu plwyf, mae'n dda gallu adrodd bod gwelliannau sylweddol wedi deillio ohonynt, a hynny yn wyneb sialensau mwyfwy dwys o bob cyfeiriad, yn cynnwys y maes digidol. A thra bo gwaith o safon yn parhau i gael ei gynhyrchu ar draws y sector cyhoeddi yng Nghymru, bu'r cynnydd dramatig yn ystod ac amrywiaeth y cyhoeddiadau mwy poblogaidd – a fu'n un o'r elfennau mwyaf trawiadol a chalonogol o'r maes dros y blynyddoedd diwethaf – o gymorth mawr i ddiwydiant sy'n cael

the continuing (and probably deepening) climate of austerity. But the Council has, as recent public and official statements have strongly confirmed, a long-established and well-earned reputation for efficiency and value for money, and so it has every reason, at the time of writing, to await the outcome of the report with quiet confidence that nevertheless quite properly falls very well short of complacency. With the new arrangements, in both the Welsh-language and English-language fields, for radical restructuring of the funding arrangements for periodicals now firmly bedded in, it is good to report that noticeable improvements have resulted, in the face of intensifying challenges from digital and other directions. And while quality work continues to be produced across the publishing sector in Wales, the dramatic increase in the range and variety of more popular publications that has been one of the most outstanding, and encouraging, features of the scene over the last few years has greatly helped an industry strongly staffed by dedicated professionals to respond vigorously, and to very good effect, to the challenges of the contracting demand for books that at one time seemed to be such an inevitable and ominous probable consequence of the economic crisis.



Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, gyda Meilir Rowlands, pennaeth Estyn, a gyflwynodd ddarlith Diwrnod y Llyfr eleni
Ken Skates, Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, with Meilir Rowlands, head of Estyn, who presented this year's World Book Day lecture

ei redeg gan weithwyr proffesiynol ymroddedig, gan ei alluogi i ymateb yn gryf ac yn llwyddiannus i'r her o ostyngiad yn y galw am lyfrau a oedd, ar un adeg, yn argoeli'n ganlyniad mor anochel o fygythiol i effeithiau'r argyfwng economaidd.

Eleni eto, gwerthfawrogwyd y gefnogaeth gref ac ymarferol a gafwyd gan Gyfeillion Cyngor Llyfrau Cymru; roedd eu cyfarfod blynyddol – a gynhaliwyd unwaith eto yn Aberystwyth yn yr hydref, yn dilyn ymweliad tra llwyddiannus y llynedd ag Aberdâr – yn cynnwys cyfweiliad cyhoeddus â'r bardd cyfoes amlwg a'r bywgraffydd eithriadol o gynhyrchol Alan Llwyd. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar destun astudiaeth fywgraffyddol ddiweddaraf Alan – sef Gwenallt – astudiaeth a oedd, fel pob un o fywgraffiadau'r awdur hynod hwn, yn cynnwys deunydd newydd, dadlennol a gasglwyd o ymchwil wreiddiol ymhlith papurau Gwenallt.

Unwaith eto hefyd, bu'r rhaglen o ddigwyddiadau a dathliadau a drefnir yn flynyddol gan y Cyngor i nodi Diwrnod y Llyfr yn fodd hynod lwyddiannus o hybu darllen a chodi proffil y byd llyfrau yng Nghymru. Traddodwyd darlith ddifyr eleni gan Meilyr Rowlands, a benodwyd yn ddiweddar gan Estyn yn Brif Arolygydd Ysgolion yng Nghymru; bu'n

Valued support both moral and practical in character has again been forthcoming from the Friends of the Welsh Books Council, whose annual meeting – held during the autumn once more at Aberystwyth, following last year's highly successful foray to Aberdare – featured a public interview with the distinguished contemporary poet and prodigiously productive biographer Alan Llwyd. Discussion primarily centred on Alan Llwyd's latest biographical study – that of Gwenallt, that again included, like all this remarkable author's biographies, revelatory new material garnered from original research amongst Gwenallt's papers.

The programme of celebratory events organized annually by the Council to mark World Book Day again proved a hugely successful means of encouraging reading and heightening the profile of the book world in Wales. And this year's fascinating lecture – tracing, in terms that were as movingly personal as they were generally illuminating, the way that books could enrich a single life – was delivered by Estyn's newly appointed Chief Inspector of Schools in Wales, Meilyr Rowlands.

This, I began by noting, has – however mercifully briefly – been the worst of years, and now as we review its passing, it seems appropriate to note that it also brought with it news that saddened me. That was the



Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gyda staff llyfrgell Glyn-neath yn lansiad ymgyrch Sialens Ddarllen yr Haf
Kirsty Williams, Cabinet Secretary for Education, with staff at Glyn-neath library at the launch of the Summer Reading Challenge


olrhain, mewn termau personol a hynod ddadlennol, y modd y gallai llyfrau gyfoethogi bywyd unigolyn.

Ar ddechrau fy adroddiad, nodais ein bod, ar adegau, wedi wynebu cyfnodau anodd eleni; yn awr, wrth i ni edrych yn ôl dros ysgwydd y flwyddyn, mae'n briodol nodi ei bod wedi dirwyn i ben gyda newyddion trist. Y newyddion hwnnw – nad oedd yn gwbl annisgwyl – yw y bydd ein Prif Weithredwr, Elwyn Jones, yn ymddeol ar ddechrau'r flwyddyn galendr nesaf. Mae'r bartneriaeth waith agos a ffurfiwyd rhyngom ni'n dau dros y saith mlynedd y bu yn y swydd wedi arwain at berthynas a nodweddir – o'm rhan i, o leiaf – nid yn unig gan barch aruthrol at ei allu a'i ymroddiad, ond hefyd gan edmygedd gwirioneddol o'i hynawsedd di-feth. Yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf, wrth gwrs, ceir cyfle priodol i gydnabod yn llawn gyfraniad amhrisiadwy Elwyn i'r Cyngor Llyfrau. Digon yw dweud yma y bydd colled fawr ar ei ôl – colled o fewn y Cyngor ei hun, ac ar draws y diwydiant, gan bawb a gafodd y pleser o gydweithio ag ef.

Yn ystod y cyfnod o her ac argyfwng a wynebwyd dros y misoedd diwethaf, cysur mawr oedd gallu dibynnu ar gefnogaeth gadarn nid un o weinidogion y Llywodraeth, ond dau. Ac rwyf am gloi fy sylwadau trwy ddiolch yn gwbl ddiffuant i holl staff ardderchog y Cyngor Llyfrau. Diolch o waelod calon i chi i gyd am eich gwaith amhrisiadwy.

news – not entirely unexpected – of the departure, at the beginning of the next calendar year, of our Chief Executive, Elwyn Jones. The close working partnership that he and I have formed over his seven years in post have resulted in a relationship marked, at least on my part, not only by immense respect for his talents and his dedication, but by genuine affection for his unfailing good nature. Next year's Annual Report will, of course, provide the appropriate occasion for a full acknowledgement of Elwyn's invaluable contribution. Suffice it therefore to say in advance that he will be sorely missed – and missed by all, I'm sure, both within the Council and throughout the industry, who have had the pleasure of working with him.

During the past period of challenge and crisis, it has been reassuring to have been able to rely on the solid support not of one Government minister, but of two. And I must, of course, conclude with my thanks for all the Books Council's wonderful staff – thanks that, far from being merely expected and routine, are heartfelt. Diolch o waelod calon i chi i gyd am eich gwaith amhrisiadwy.



Yr Athro M. Wynn Thomas
Professor M. Wynn Thomas
Cadeirydd *Chairman*





Adroddiad y Prif Weithredwr

Chief Executive's Report

BU'R SEFYLLFA ariannol yn gysgod dros y Cyngor drwy gydol y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd y cyhoeddiad ar ddechrau'r flwyddyn ein bod yn wynebu toriad sylweddol i'n cyllid yn ergyd drom o ystyried yr effaith y byddai hynny'n ei gael, nid yn unig ar y Cyngor, ond hefyd ar y diwydiant a'r ddarpariaeth i'r darllenwyr.

Buom yn hynod ffodus i gael cyfle i drafod y goblygiadau gyda Llywodraeth Cymru. Dim ond gwleidyddion all newid penderfyniad o'r fath ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am wrando ar y dadleuon. Yr ydym yr un mor ddiolchgar i eraill a fu'n eiriol ar ein rhan – partneriaid o fewn y fasnach lyfrau, ac yn arbennig felly yr awduron Cymraeg a Saesneg sydd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor.

Mewn cyfnod anodd fel hyn mae'n hanfodol bod y Cyngor yn arolygu ac asesu ei holl gynlluniau, a dyna yn union a wnaed gyda'r Clwb Llyfrau. Fel yr adroddwyd y llynedd, fe ddaethpwyd i'r penderfyniad anodd o ddirwyn y Clwb i ben ond gan roi ymrwymiad clir i gefnogi maes llyfrau plant. Bellach, mae'n dda gennym adrodd bod cynllun cyffrous @LlyfrDaFabBooks wedi ei sefydlu gennym. Prif ffocws y cynllun yw trefnu ymweliadau gan awduron ag ysgolion a llyfrgelloedd a gwahodd llyfrwerthwr lleol i fod yn rhan o'r digwyddiadau. Eisoes fe drefnwyd teithiau gydag awduron mor amrywiol â Meleri Wyn James, Dan Anthony ac Angharad Tomos, yn ogystal ag achlysur arbennig yng

THROUGHOUT the last year, the financial situation cast a dark shadow over the Council. The announcement early in the year that we were to face a substantial cut to our funding was a heavy blow, given the effect the proposed cut would have not only on the Council itself, but also on the industry as a whole and on the provision for readers.

We were extremely fortunate to be given an opportunity to discuss the implications with the Welsh Government. Politicians are the only ones who can change a decision such as this, and we are most grateful to them for their willingness to listen to the arguments. We are very grateful too to others who interceded on our behalf – partners within the book trade, and especially the authors, both Welsh and English-language, who greatly appreciate the support and the services provided by the Council.

In a challenging period such as this, it is imperative for the Council to review and assess its various schemes, and this is precisely what happened in the case of the Book Club. As reported last year, the difficult decision was taken to wind up the Club, whilst at the same time making a clear commitment to continue supporting the field of children's books. We are now pleased to welcome the exciting scheme @LlyfrDaFabBooks. The main focus of this scheme is to arrange visits by authors to schools and libraries, and to invite local booksellers to play a part in the events. To date, tours have been arranged with authors as diverse as Meleri Wyn James, Dan Anthony and

Nghastell Aberteifi lle roedd 600 o blant yn bresennol. Dyma enghraifft glir, mi gredaf, o barodrwydd y Cyngor i addasu mewn cyfnod o newid.

Os yw hi'n hanfodol asesu cynlluniau, mae hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau datblygiadau o fewn y diwydiant. Yn ystod y flwyddyn ariannol fe aed ati i hysbysebu'r tendr ar gyfer y cylch ariannu cylchgronau Cymraeg. Fe gofir ein bod wedi dilyn trefn gyffelyb gyda'r cylchgronau Saesneg flwyddyn ynghynt. Unwaith eto fe gomisiynwyd adroddiad ar y ddarpariaeth bresennol, gan fwydo nifer o'r argymhellion i'r fanyleb derfynol. Cafwyd ymateb rhagorol, ac yn dilyn proses gystadleuol fe gefnogwyd ystod o ddeunydd amrywiol gan gynnwys dau gyhoeddiad newydd. Daeth y comic *Mellten* i olau dydd yn Eisteddfod yr Urdd a chael croeso brwd gan y darllenwyr ifanc, tra bo lansiad y cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt* yn gyfle i roi sylw i'n llenyddiaeth gyfoethog o'r newydd. Dyma ddau gyhoeddiad gwahanol, felly, sy'n ymestyn y ddarpariaeth i'r darllenwyr.

Ar yr un pryd cafwyd datblygiadau ym maes llyfrau Saesneg i blant, gyda chwmni Firefly yn mynd o nerth i nerth a llyfrau o Gymru i'w gweld ar restrau'r cyhoeddiadau gorau i oedolion ifanc. Dyma faes sydd yn sicr yn haeddu sylw ac sydd yn hanfodol i sbarduno darllenwyr ifanc. Mae'r Panel Grantiau Cyhoeddi Saesneg wedi rhoi mwy o sylw nag erioed i lyfrau plant yn ddiweddar, a da gweld cyhoeddwy newydd fel Firefly a chyhoeddwy profiadol fel Pont yn sicrhau llwyddiant.

Rydym yn pwysleisio yn aml fod pedair ffrwd i waith y Cyngor, sef y gwasanaethau arbenigol i'r fasnach, y drefn grantiau, y Ganolfan Ddosbarthu a'r cynlluniau hyrwyddo darllen. Un o'r sialensau sy'n ein hwynebu yw ceisio dod â'r cyfan hyn at ei gilydd. Teimlwn fod hyn wedi ei gyflawni eleni wrth i ni fynd ati i baratoi Cynllun Strategaeth pum mlynedd. Y mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Cynllun Gweithredol blynyddol, ond fe rydd y Cynllun Strategaeth gyfle i ni godi ein golygon a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd hi'n briodol mai'r Cyngor ei hunan a baratodd y drafft cyntaf, ond roedd hi hefyd yn hanfodol ein bod yn ymgynghori'n helaeth gyda'n prif bartneriaid ac rydym yn ddiolchgar i'r cyhoeddwy a'r llyfrwerthwyr am eu sylwadau craff, yn ogystal ag am gyfraniad gwerthfawr Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr. Braf nodi bod nifer fawr o'r sylwadau hyn wedi eu cynnwys yn y ddogfen derfynol sydd i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Mae'n wir fod cryn sylw yn y Cynllun i'r angen i amddiffyn y gwasanaethau sydd wedi eu datblygu

Angharad Tomos, together with a notable event held at Cardigan Castle, where 600 children were present. This, I believe, is an excellent example of the Council's willingness to adapt in a period of change.

Whilst it is important for us to assess our various schemes, it is also vital to encourage new developments within the industry. During the past financial year, the tender for the new funding cycle of the Welsh-language magazines was advertised. A similar procedure had been followed during the previous year in the context of the English-language magazines. Once again, a report was commissioned on the current provision, and several of its recommendations were included in the final specifications. There was an excellent response, and following a competitive process support was granted to a range of diverse material, including two new publications. The new comic *Mellten* first appeared during the Urdd Eisteddfod and was warmly welcomed by young readers, whilst the launch of the magazine *O'r Pedwar Gwynt* provided an opportunity to look with fresh eyes at our rich literary heritage. These two very different publications contributed towards extending the provision available for the readers.

At the same time, there were developments in the field of English-language books for children, with publisher Firefly going from strength to strength and books from Wales being included on lists of the best publications for young adults. This is a field that certainly merits attention, and it is vital in the work of stimulating young readers. The English-language Publishing Grants Panel has recently placed more emphasis than ever before on children's books, and it is pleasing to see the success enjoyed by new publishers such as Firefly, and experienced publishers such as Pont Books.

We often emphasize the fact that there are four main strands to the Council's work: the specialist services provided to the trade, the publishing grants scheme, the Distribution Centre, and the reading promotion schemes. One of the challenges we face is how to bring all the various elements together. We feel that this was achieved this year as we drew up a five-year Strategic Plan. The Council is required to prepare an annual Operational Plan, but the Strategic Plan gives us an opportunity to look ahead and plan for the future. Although it was fitting that the Council itself was responsible for drawing up the first draft, it was also vital for us to consult widely with our main partners; in this respect, we are grateful to the publishers and booksellers for



Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ac Elwyn Jones ar stondin y Cyngor ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Fenni
Alun Davies, Minister for the Welsh Language and Lifelong Learning, and Elwyn Jones on the Council's stand at the Abergavenny National Eisteddfod

dros y blynyddoedd, gan ddeall mor bwysig yw hynny i ddyfodol y diwydiant. Ond rydym yn cyfeirio hefyd at feysydd eraill megis pwysigrwydd cefnogaeth i athrawon a llyfrgellwyr wrth iddynt gyfeirio plant at lyfrau penodol, y cyfle i baratoi deunydd ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r angen i gyrff ddod at ei gilydd i drafod maes llyfrau academiaidd. O safbwynt y Cyngor ei hunan, mae cyfle yn ogystal i ystyried a yw'r enw Saesneg – Welsh Books Council – yn cyfleu holl rychwant ein gwaith i'r cyhoedd. Hwyrach y byddai Wales Books Council neu Books Council of Wales yn ddisgrifiad cywirach o gorff sydd bellach yn gwasanaethu dau ddiwylliant y Gymru gyfoes.

Mae'r Cyngor hefyd wedi croesawu'r arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i faes llenyddiaeth a chyhoeddi dan gadeiryddiaeth yr Athro Medwin Hughes. Gwerthfawrogwyd y cyfle i anfon gwybodaeth ysgrifenedig i sylw'r aelodau ac i roi cyflwyniad ger eu bron. Dyma gyfle unwaith eto i ddatblygu'r maes cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith.

Mae pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa economaidd erbyn hyn ac, yn anffodus, mae ei heffaith i'w gweld ar y diwydiant cyhoeddi fel ar bob sector arall gan arwain at ostyngiad yng ngwerthiant y Ganolfan Ddosbarthu. O ddadansoddi'r ffigurau fe welwyd

their perceptive comments, and to the Society of Chief Librarians for their valuable contribution. It is pleasing to note that many of these comments have been included in the final version of the document, which can be seen on the Council's website.

It is true that considerable attention is given in the Plan to the need to protect the services that have been developed over the years, recognising their value to the future of the publishing industry. But we also refer to other fields, such as the importance of supporting teachers and librarians as they refer children to particular books, the opportunity to prepare materials for the new curriculum, and the need for various bodies to come together to discuss the field of academic books. From the Council's own perspective, there is also an opportunity to consider whether or not its English name – the Welsh Books Council – conveys the whole range of our work to the general public. It may be that the Wales Books Council or the Books Council of Wales would be a more accurate title for a body that now serves both cultures of modern Wales.

The Council has also welcomed the review into literature and publishing in Wales, commissioned by the Welsh Government and chaired by Professor Medwin Hughes. We appreciated the opportunity to present written evidence for the attention of



Prif Weithredwr newydd y Cyngor Llyfrau – Helgard Krause
The Council's New Chief Executive – Helgard Krause

mai cyhoeddiadau'r sector addysgol oedd wedi eu taro waethaf, gyda gostyngiad sylweddol yng ngwerthiant cyfeirlyfrau a llyfrau ffeithiol yn y ddwy iaith. Roedd y symudiad at ddeunydd digidol yn ffactor allweddol, ond mae'n amlwg hefyd fod pwysau enbyd ar gyllidebau'r ysgolion y dyddiau hyn.

Ni allwn orbwysleisio bod y cydweithio o fewn y byd llyfrau i'w ganmol yn fawr. Ac er bod gan y Cyngor, y cyhoeddwr, y llyfrwerthwr a'r llyfrgellwr eu blaenoriaethau gwahanol, mae pawb yr un mor frwd dros sicrhau'r deunyddiau gorau i'r darllenwyr.

Y cyhoedd, hefyd, oedd flaenaf yn ein meddyliau pan oeddem yn ymateb i gyfleon Blwyddyn Antur y Llywodraeth a dathliadau canmlwyddiant Roald Dahl. Rhydd y rhain gyfle o'r newydd i ni gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a phleser oedd bod yng nghwmni Ken Skates, y Dirprwy Weinidog ar y pryd dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, pan lansiwyd taith sioe *Roald Dahl – Dychmygwch!* gan gwmni Mewn Cymeriad yn Llandudno. Erbyn hyn y mae cannoedd o ddisgyblion wedi mwynhau'r perfformiadau mewn ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru, gan bwysleisio unwaith eto rôl allweddol y Cyngor wrth hybu llyfrau ochr yn ochr â hybu darllen.

Ac os caniatewch i mi daro nodyn personol, wrth

members, and to give a presentation before them. This is yet another opportunity to develop the field of publishing in Wales, in both languages.

We are all well aware of the current economic situation and, unfortunately, its effect is obvious on the publishing industry as on every other sector, with a decrease seen in sales through the Distribution Centre. By analysing the figures, it became evident that the publications in the education sector were the worst hit, with a substantial decrease seen in the sales of reference books and factual books in both languages. Although the move towards digital material was a key factor in the decline, it is also apparent that school budgets are currently under tremendous pressure.

We cannot over-emphasize the fact that the co-operation within the book trade is to be greatly praised. And although the Council, the publishers, the booksellers and the librarians each have their own priorities, they are all equally eager to ensure the best possible materials for readers. The general public were also foremost in our minds as we responded to the opportunities offered by the Welsh Government's Year of Adventure and the celebrations to note the centenary of the birth of Roald Dahl. These events are a way of reaching new audiences, and it was a pleasure to be in the company of Ken Skates, who was at the time Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, at the launch of the *Roald Dahl – Imagine That!* show by In Character at Llandudno. To date, hundreds of pupils have enjoyed the performances in schools and libraries the length and breadth of Wales, emphasizing once more the key role played by the Council in promoting books and reading.

As I prepare to retire after twenty years on the staff of the Welsh Books Council, I hope you will allow me to strike a personal note by saying that I am more aware than ever of the importance of the Council as a national institution. It is evident that we have a key role to play in protecting the standard and variety of the books produced, promoting books from Wales amongst readers wherever they may be, and ensuring that the industry is strong and successful – but I also believe that our role is even more extensive in that we contribute greatly to the work programme of any government. The Books Council is an organization that unites the whole of Wales, and contributes to shaping the Wales of the future, ensuring equal respect for the country's two languages and cultures. A flourishing publishing industry is vital for the good of Wales.

I always end my presentation for the Annual Report


imi baratoi i ymddeol ar ôl ugain mlynedd ar staff y Cyngor Llyfrau, rwy'n fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd y Cyngor fel sefydliad cenedlaethol. Mae'n amlwg bod gennym rôl allweddol yn y gwaith o amddiffyn safon ac amrywiaeth y cynnyrch, hyrwyddo llyfrau o Gymru ymhlith darllenwyr lle bynnag y bônt a sicrhau diwydiant cryf a ffyniannus – ond credaf fod ein rôl yn ehangach na hynny hefyd gan ein bod yn cyfrannu cymaint i raglen waith unrhyw lywodraeth. Mae'r Cyngor Llyfrau yn sefydliad sy'n cyfannu Cymru gyfan, ac yn cyfrannu at siapio Cymru'r dyfodol gan roi lle teilwng i ddwy iaith a dau ddiwylliant Cymru. Er lles Cymru mae gwir angen diwydiant cyhoeddi llewyrchus.

Ar ddiwedd fy nghyflwyniad i'r Adroddiad Blynyddol byddaf bob amser yn diolch i'r holl staff am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac mae hynny, yn sicr, yr un mor addas eleni. Fe ymadawodd Ifana Savill a Medi Jones-Jackson rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, ac yn ystod yr un cyfnod fe ymunodd E. Vera Bowen, Anwen Francis, Gwion Dafydd a Iona M. Bailey.

Wrth i brif weithredwr arwain unrhyw sefydliad, mae'n dibynnu'n fawr ar ei staff a hefyd ar aelodau amrywiol bwyllgorau. Bûm yn hynod ffodus i gael cefnogaeth cynifer o bobl dros y blynyddoedd, ac wrth ddiolch yn arbennig i'r Athro M. Wynn Thomas am ei waith fel Cadeirydd, y mae'r diolch yr un mor ddiffuant i'r Prif Swyddogion ac i aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r holl banelau. Maent i gyd yn rhoi o'u hamser oherwydd eu bod yn credu mor angerddol â minnau yng ngwaith y sefydliad. Ni allaf ond dymuno'n dda i'm holynydd, Helgard Krause, gan wybod o brofiad fod cyflawni swydd Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau yn fraint i'w thrysori.

by thanking the staff for their work during the year, and these words are particularly appropriate this year. Between April 2015 and March 2016, we said farewell to Ifana Savill and Medi Jones-Jackson, and during the same period E. Vera Bowen, Anwen Francis, Gwion Dafydd and Iona M. Bailey joined us.

In leading any organization, a chief executive relies heavily on the staff and the members of various committees. I have been extremely fortunate to have the support of so many people over the years, and in paying special thanks to Professor M. Wynn Thomas for his sterling work as Chair, my thanks are equally sincere to the Chief Officers and to the members of the Executive Committee and all the panels. They all give freely of their time because they believe as passionately as I do in the work of the organization. I will end by conveying my very best wishes to my successor, Helgard Krause, knowing from personal experience that serving as the Chief Executive of the Books Council is a privilege to be cherished.



Elwyn Jones
Prif Weithredwr *Chief Executive*



Grantiau Cyhoeddi

Publishing Grants

FEL Y NODODD Elwyn Jones, y Prif Weithredwr, ar ddechrau'r adroddiad hwn, yn 2015/16 wynebodd y diwydiant cyhoeddi un o'i heriau mwyaf erioed wrth i doriadau o 10.6% gael eu hargymell i gyllideb y Cyngor ac i'r grantiau y mae'n eu dosbarthu i gyhoeddwy. Roedd tro pedol Llywodraeth Cymru yng nghydestun y penderfyniad hwn yn tystio i'w pharodrwydd i wrando, i drafod, ac i gydweithio â'r diwydiant. Mewn cyfnod anodd, profiad amheuthun oedd gweld y sector cyfan yn dod at ei gilydd mewn ysbryd o gefnogaeth a chymorth. Ni fyddai cyhoeddi yng Nghymru'n bosibl oni bai am y cydweithio a geir rhwng awduron, cyhoeddwy, llyfrwerthwyr, llyfrgelloedd, darllenwyr, a llawer o bobl eraill, yn ogystal wrth gwrs â'r cyllid hollbwysig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a sianelir trwy'r Cyngor Llyfrau. Trwy'r grantiau hyn, cefnogir nifer fawr o feysydd o fewn yr ecosystem gyhoeddi. Mae'r grantiau i awduron yn galluogi cyhoeddwy i gomisiynu ystod eang o deitlau i gwrdd â gwahanol anghenion darllenwyr yng Nghymru a thu hwnt. Mae grantiau ar gyfer dylunio a deunydd gweledol, a grantiau cynhyrchu, yn arwain at gynhyrchu llyfrau a chylchgronau apelgar, o ansawdd uchel, sy'n gallu cystadlu ar lwyfan rhyngwladol. Trwy'r grantiau marchnata a'r grantiau i lyfrwerthwyr, gellir sicrhau bod teitlau o Gymru'n cyrraedd y darllenwyr. Mae cefnogi swyddi yn y gweisg yn galluogi golygyddion hyfedr i gynhyrchu'r deunydd gorau posibl, tra bo hyfforddiant rheolaidd yn sicrhau bod y diwydiant yn derbyn gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf yn y sector. Mae'r pwynt olaf hwn yn ein hatgoffa nid yn unig bod cefnogaeth ariannol yn hanfodol os yw hyn i barhau, ond hefyd ei bod yn bwysig cydnabod na allai'r diwydiant ffynnu oni bai am y bobl sy'n rhan ohono – o'r unigolion medrus ac angerddol sy'n gweithio o'i fewn i'r darllenwyr brwdfrydig ym mhob maes. Hoffem ddiolch i chi oll am eich cyfraniad.

Cyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd i lyfrau a chylchgronau Cymraeg yn 2015/16 oedd £1,634,870 – swm a oedd yn cynnwys £190,000 i gefnogi Golwg 360, y wefan newyddion dyddiol. Cyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd i lyfrau a chylchgronau Saesneg yn 2015/16 oedd £667,674.

AS THE Chief Executive Elwyn Jones remarked at the beginning of this report, 2015/16 saw the publishing industry face one of its biggest challenges yet as cuts of 10.6% were proposed to the Council's budget and to the grants it distributes to publishers. The Welsh Government's reversal of this decision was testament to its willingness to listen, to engage in conversation and to work with the industry. During a difficult time, it was also heartening to see that the sector came together in a spirit of mutual support. Publishing in Wales would not be possible without collaboration between authors, publishers, booksellers, libraries, readers and many others and, of course, the vital funding from the Welsh Government channelled through the Welsh Books Council. Grants support many areas within this publishing ecosystem. Grants for authors enable publishers to commission a broad range of titles for the varied needs of readers in Wales and beyond. Grants for design and visual material and production grants ensure good-quality, appealing books and magazines that can compete on an international stage. Marketing grants and grants for booksellers ensure that titles from Wales reach readers. Funding for posts enables proficient editors to produce the best possible material, and ongoing training ensures that the industry keeps abreast of the most recent developments in the sector. The latter point reminds us that while funding is essential for this to continue, it is also important to recognise that the industry could not flourish were it not for the people involved, from the passionate and skilled individuals who work within it to the enthusiastic readers of all different kinds. We would like to thank you all for your contribution.

The grants distributed to Welsh-language books and magazines in 2015/16 totalled £1,634,870, which included £190,000 to support the daily news website Golwg 360. The grants distributed to English-language books and magazines in 2015/16 totalled £667,674.

Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)

Newidiadau i'r staff Yn ystod 2015/16 gwelwyd Ifana Savill yn ymddeol ar ôl rhoi 35 mlynedd o wasanaeth i'r Adran Grantiau. Penodwyd Iona Bailey yn ei lle a Vera Bowen i gynorthwyo gyda'r grantiau Cymraeg a Saesneg. Yn yr un cyfnod, yn dilyn marwolaeth ddisymwth Gareth Davies-Jones ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth fel Cadeirydd y Panel Grantiau Cyhoeddi Cymraeg, penodwyd Robat Arwyn Jones yn Gadeirydd y Panel.

Cofio'r Rhyfel Mawr Wrth i ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr barhau, llwyddwyd i gefnogi rhagor o lyfrau sy'n cyfrannu at y cofio. Cyhoeddwyd nofel Alun Cobb, *Mametz*, gan Wasg Gomer, a chan Wasg Carreg Gwalch cafwyd *Adref o Uffern*, Garffild Lloyd Lewis, cyfrol sy'n olrhain hanes un o'r rhai cyntaf i brofi llawdriniaeth i adfer ei wyneb ar ôl dioddef anafiadau yn y rhyfel.




Roald Dahl Defnyddiwyd y grantiau cyhoeddi i gefnogi Cyhoeddiadau Rily wrth iddynt sicrhau bod y cyfrolau sydd wedi bod yn ffefrynnau gan blant Cymru ers blynyddoedd yn dal ar gael ac mewn diwyg cyfoes. Cyhoeddwyd *Pastai Odl*, cyfieithiad newydd Gwynne Williams o gyfrol o gerddi gan Roald Dahl i blant hŷn ac oedolion, a rhoddwyd cefnogaeth ar gyfer ailargraffu 14 o gyfrolau eraill i ddathlu canmlwyddiant yr awdur.

Publishing Grants (Welsh-language)

Staff changes During 2015/16 Ifana Savill retired after giving 35 years of service to the Grants Department. Iona Bailey was appointed in her place, with Vera Bowen appointed to assist with the Welsh- and English-language grants. In the same period, following the untimely death of Gareth Davies-Jones after serving for many years as Chair of the Welsh-language Publishing Grants Panel, Robat Arwyn Jones was appointed Chair of the Panel.

Commemorating the Great War As the centenary of the Great War continued, the department supported further titles that contributed to the commemorations. Gomer Press published Alun Cobb's novel, *Mametz*, and Carreg Gwalch published *Adref o Uffern* by Garffild Lloyd Lewis, a volume recounting the experiences of one of the first people to have facial reconstructive surgery after being seriously injured in the war.

Roald Dahl The publishing grants were used to support Rily Publications to ensure that titles that have been popular with children in Wales over many years were still available, and reproduced in a modern design. *Pastai Odl*, a new translation by Gwynne Williams of a volume of poems by Roald Dahl for young people and adults, was published, and support was given to enable the reprinting of 14 other titles to celebrate the author's centenary.



Tabl 1 Crynodeb o Wariant y Grantiau Cyhoeddi Cymraeg 2015/16
Table 1 Summary of Welsh-language Publishing Grants Expenditure 2015/16



	£
Cyhoeddwy Rhaglen / Programme Publishers	£388,950
Grantiau Cyhoeddi Unigol / Individual Publishing Grants	£60,200
Taliadau Perfformiad etc. / Performance Payments etc.	£7,600
Taliadau i Awduron a Deunydd Gweledol / Payments for Authors and Visual Material	£255,896
Cefnogi Swyddi a Hyfforddiant / Supported Posts and Training	£273,604
Cylchgronau / Magazines	£375,252
Arian i'r Wasg Gymraeg (Golwg 360) / Support for the Welsh-language Press (Golgwg 360)	£190,000
Deunydd Electronig / Electronic Material	£6,690
Gemau / Games	£2,500
Llyfrwerthwyr / Booksellers	£33,017
Marchnata / Marketing	£41,161
	£1,634,870

Hyfforddiant cylchgronau Yn dilyn y broses tendro am y cylchgronau, trefnwyd diwrnod o hyfforddiant i'r cyhoeddiadau a gefnogir dros y tair blynedd nesaf. Dyma'r tro cyntaf i'r sawl sydd ynghlwm â'r cylchgronau nawdd ymgynnull mewn un lle, a chafwyd diwrnod hwyliog a defnyddiol. Cafwyd cyflwyniadau gan bob cyhoeddiad a chymorthfeydd ar olygu, dylunio, hawliau a chwilio am luniau. Bydd hyfforddiant arbenigol yn cael ei gynnig yn rheolaidd o hyn ymlaen.

Nawdd i awduron Mae'r Cyngor Llyfrau yn falch o allu cyflwyno grantiau i'r cyhoeddwy i gefnogi rhai o brif awduron y Gymraeg. Yn ystod 2015/16 cyhoeddwyd *Rhyd y Gro* Sian Northey, *Norte* Jon Gower a *Sol a Lara* Tony Bianchi gan Wasg Gomer; a *Rifera Reu* Dewi Prysor, *I Botany Bay* Bethan Gwanas, *Y Bwthyn* Caryl Lewis a *Taffia* Llwyd Owen gan y Lolfa, gyda chyfartaledd o £8,500 o grant i bob awdur.

Training for magazines Following the completion of the tendering process for the magazines, a training day was arranged for the staff of the publications that will be supported over the next three years. This was the first opportunity for those involved with the franchise magazines to come together in the same place, and the event was both enjoyable and valuable. There were presentations by each publication, as well as sessions on editing, design, rights and photograph research. More specialised training will be provided regularly in the future.

Support for authors The Books Council is pleased to be able to provide grants for publishers in order to support some of the foremost Welsh-language authors. During 2015/16 the following titles were published: *Rhyd y Gro* by Sian Northey, *Norte* by Jon Gower and *Sol a Lara* by Tony Bianchi (Gomer Press); and *Rifera Reu* by Dewi Prysor, *I Botany Bay* by Bethan Gwanas, *Y Bwthyn* by Caryl Lewis and *Taffia* by Llwyd Owen (Y Lolfa), with an average grant of £8,500 for each author.



Tabl 2 Grantiau i Gyhoeddwr Llyfrau Cymraeg 2015/16

Table 2 Grants for Welsh-language Book Publishers 2015/16

Cyhoeddwr / Publisher	Llyfrau Plant / Children's Books		Llyfrau Oedolion / Adult Books		Cyfansymiau / Totals	
	Teitlau / Titles	Grant	Teitlau / Titles	Grant		
Rhaglenni / Programmes		£		£		£
Cyhoeddiadau Barddas	0	0	8	30,000	8	30,000 *
Gwasg Carreg Gwalch	15	29,200	22	53,300	37	82,500
Gwasg Gomer	32	60,668	25	57,332	57	118,000
Gwasg y Dref Wen	25	45,450	0	0	25	45,450 **
Rily	15	21,250	0	0	15	21,250 ***
Y Lolfa	14	23,686	26	68,064	40	91,750
	101	180,254	81	208,696	182	388,950

Grantiau Unigol / Individual Grants




Arts Dictionaries	0	0	1	100	1	100
Atebol	6	9,000	0	0	6	9,000
Cyhoeddiadau Curiad	1	1,700	0	0	1	1,700
Cyhoeddiadau Modern	0	0	1	1,500	1	1,500
Cyhoeddiadau Sain	1	1,200	1	2,000	2	3,200
Cyhoeddiadau'r Gair	1	1,000	2	2,450	3	3,450
Dalen Llyfrau	4	5,000	0	0	4	5,000
Dalen Newydd			3	3,400	3	3,400
Gwasg Bryntirion			1	2,000	1	2,000
Gwasg Carreg Gwalch			2	1,450	2	1,450
Gwasg Gomer			1	250	1	250
Gwasg Prifysgol Cymru			1	2,300	1	2,300
Gwasg y Bwthyn			11	18,800	11	18,800
Y Lolfa			5	8,050	5	8,050
	13	17,900	29	42,300	42	60,200

17 Cyhoeddwr / 17 Publishers	114	198,154	110	250,996	224	449,150
Tâl perfformiad etc. / Perf. payments etc.	(13)	2,600	(25)	5,000	(38)	7,600
Catalog Llyfrau Plant		8,000				8,000
		10,600		5,000		15,600
	114	208,754	110	255,996	224	464,750

* yn cynnwys un taliad ar gyfer chwarter cyntaf 16/17 ar y raddfa is o £7,200 y chwarter / includes one payment for the first quarter of 16/17 at a reduced level of £7,200 per quarter

** yn cynnwys un taliad ar gyfer chwarter cyntaf 16/17 heb gynnwys tâl adargraffiadau gan y disgwyliad am ddau deitl ar gyfer 14/15 a dau deitl ar gyfer 15/16 / includes one payment for the first quarter of 16/17 minus the reprint grants as two titles for 14/15 and two titles for 15/16 are ongoing

*** yn cynnwys un taliad ar gyfer chwarter cyntaf 16/17, sy'n cynnwys taliad o £250 ar gyfer adargraffu am y tro cyntaf / includes one payment for the first quarter of 16/17, which includes a payment of £250 for reprint for the first time



Cylchgronau Newydd

Blwyddyn y cylchgronau oedd 2015/16 i dîm y grantiau cyhoeddi Cymraeg. Ystyrir y broses yn un lwyddiannus iawn: denwyd nifer o gyhoeddiadau newydd i ymgeisio am grant, a llwyddwyd i gefnogi dau gylchgrawn newydd sbon yn ogystal â pharhau i gefnogi tri ar ddeg o deitlau sydd wedi hen ennill eu plwyf.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Mellten*, comic i blant rhwng 8 a 12 oed, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint eleni gan wasg y Lolfa. Golygydd y cylchgrawn yw'r cartwnydd amryddawn Huw Aaron, a llwyddodd i greu llu o gymeriadau gwreiddiol a deniadol sydd eisoes wedi profi'n boblogaidd iawn ymhlith plant o bob oed.

Cyhoeddwyd y cylchgrawn llenyddol *O'r Pedwar Gwynt* yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni dan olygyddiaeth Sioned Puw Rowlands, Owen Martell a Mari Siôn. Mae ei fformat 'papur newydd' yn cynnig golwg newydd i ni ar y byd ac ar Gymru trwy gyfrwng llyfrau. Mae'r ddau gylchgrawn yn cynnig gwedd ddigidol fywiog i'w cyhoeddiadau, a gellir eu gweld ar wefannau mellten.com a pedwargwynt.cymru.

New Magazines

For the Welsh-language publishing grants team, 2015/16 was the year of the magazines. The process was completed successfully: several new publications applied for a grant, and two brand new magazines were supported, in addition to providing continuing support for thirteen long-established titles.

During the 2016 Urdd Eisteddfod at Flint, Y Lolfa published the first issue of *Mellten*, a comic for children aged between 8 and 12. Its editor is the versatile cartoonist Huw Aaron, who has succeeded in creating a host of original, appealing characters that have already proved very popular with children of all ages.

The National Eisteddfod, held at Abergavenny in August 2016, saw the publication of the new literary magazine *O'r Pedwar Gwynt*, edited by Sioned Puw Rowlands, Owen Martell and Mari Siôn. Its 'newspaper' format offers readers a fresh view of the world and of Wales through the medium of books. Both magazines provide a lively digital platform for their publications, which can be viewed on their respective websites, mellten.com and pedwargwynt.cymru.



Tabl 3 Prif Gomisiynau Awduron Cymraeg / Table 3 Main Commissions for Welsh-language Authors

Llyfrau a gyhoeddwyd 2015/16 Books published 2015/16

Cyhoeddwr / Publisher	Teitl / Title	Awdur / Author
Gwasg Carreg Gwalch	Blas y Bryniau	Dafydd Edwards / Lyn Ebenezer
	Fi Sy'n Cael y Ci	Rhian Cadwaladr
Gwasg Gomer	Norte	Jon Gower
	Rhyd y Gro	Sian Northey
	Sol a Lara	Tony Bianchi
	Tir a Môr	Bryn Williams / Catrin Beard
	Tra Bo Dwy	Gwen Parrott
	Tynnu Colur Toni Caroll	Toni Caroll / Ioan Kidd
	Un Man	Joanna Davies
	Y Chwedegau Ych-a-fi	Catrin Stevens
Gwasg y Bwthyn	Ar Fy Ngwaethaf	John Stevenson
Y Lolfa	Chwynnu	Sioned Wiliam
	I Botany Bay	Bethan Gwanas
	Môn, Cymru a'r Bêl	Osian Roberts / Lynn Davies
	Rifera Reu	Dewi Prysor
	Taffia	Llwyd Owen
	Y Bwthyn	Caryl Lewis
	Y Gelyn Cudd	Geraint Evans

Tabl 4 Cylchgronau Cymraeg a gefnogwyd 2015/16

Table 4 Welsh-language magazines supported 2015/16

	£
Barddas	24,000
Barn	80,000
Cip	29,900 *
Cristion	5,200 *
Fferm a Thyddyn	2,375 *
Gair y Dydd	1,800 ****
Golwg	73,000
Lingo Newydd	19,500 *
Llafar Gwlad	8,750 **
Mellten	3,500 ****
Taliesin	28,500
Wcw	40,500 *
Y Casglwr	1,500
Y Cymro	18,000
Y Neuadd	3,000 ****
Y Selar	11,750 *
Y Traethodydd	7,500 *
Y Wawr	12,500 **
Tendr / Eraill	3,227
Atodiad Hysbysebu / Advertising Supplement	750
	375,252

* yn cynnwys 1 taliad am chwarter cyntaf 2016/17 / includes one payment for the first quarter of 2016/17 ** yn cynnwys 5 taliad chwarterol / includes 5 quarterly payments *** taliad chwarter cyntaf 2016/17 / first quarterly payment of 2016/17 **** Un chwarter wedi ei dalu o 2014/15 / One quarterly payment paid from 2014/15 O Ebrill 2016 talwyd pob grant o'r gronfa hon yn chwarterol / From April 2016 all grants from this fund were paid quarterly



Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)

Mae'r gefnogaeth a roddir i gyhoeddiadau Saesneg eu hiaith yn fodd i sicrhau amrywiaeth o ddeunyddiau bywiog sy'n adlewyrchu diwylliant neilltuol Cymru, a hynny yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig o fewn y farchnad gyhoeddi Eingl-Americanaidd. Mae'r buddsoddiad hwn yn darparu i ddarllenwyr yng Nghymru deitlau sy'n berthnasol iddynt, ac yn cefnogi sector sy'n edrych tuag allan gan ei fod yn cyflwyno diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol. Isod, rhestrir rhai o weithgareddau'r flwyddyn ar ochr Saesneg yr Adran Grantiau.

Cydnabyddiaeth i awduron Eleni, enillodd yr awdur Horatio Clare a'r cyhoeddwr Penny Thomas o gwmni Firefly wobr Branford Boase am y nofel gyntaf orau ar gyfer plant gyda'r gyfrol *Aubrey and the Terrible Yoot*, gan guro cystadleuaeth gref o du Penguin, Nosy Crow a HarperCollins. Dyfarnwyd grant Blaendal Awdur i Firefly i'w galluogi i gomisiynu'r llyfr plant cyntaf erioed o waith Horatio Clare, a hoffem ei longyfarch ef a Firefly yn wresog ar eu llwyddiant.


Grantiau i gylchgronau Mae darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer cylchgronau print a digidol yn sicrhau ffocws trylwyr ar ddiwylliant a materion y dydd, gan ddarparu llwyfan i'n sgwrs ddiwylliannol ni fel cenedl. Yn 2015/16 rhoddwyd cefnogaeth i *Wales Arts Review*, *Planet*, *New Welsh Review*, *Poetry Wales*, *The Welsh Agenda* a *Click on Wales*. Gan ymateb i'r newidiadau byd-eang sy'n digwydd mor gyflym o fewn y sector hwn, manteisiodd y cylchgronau hefyd ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant mewn strategaethau i gynhyrchu incwm ac i gynyddu'r nifer o danysgrifiadau digidol. Dyfarnwyd grant blynyddol ar gyfer cylchgronau bychain i *Envoi*, *Scintilla* a *Roundyhouse*.

Publishing Grants (English)

Support for English-language publications ensures a vibrant range of materials that reflect the distinctive culture of Wales, in the face of fierce competition within the Anglo-American publishing market. This investment provides readers in Wales with titles that are relevant to them and supports a sector that is also outward-looking as it presents the culture of Wales on an international level. The following highlights some of the activities on the English-language side of the Grants Department.

Recognition for authors This year saw author Horatio Clare and publisher Penny Thomas of Firefly win the Branford Boase award for the outstanding first-time novel for children, with *Aubrey and the Terrible Yoot* beating stiff competition from Penguin, Nosy Crow and HarperCollins. Firefly was awarded an Author Advance grant to commission the first-ever children's book by Horatio Clare, and we warmly congratulate him and Firefly Press on their success.

Grants for magazines Funding for print and digital magazines ensures an in-depth focus on culture and current affairs, providing a platform for our nation's cultural conversation. In 2015/16 *Wales Arts Review*, *Planet*, *New Welsh Review*, *Poetry Wales*, *The Welsh Agenda* and *Click on Wales* all received support. In recognition of the rapid worldwide changes within this sector, the magazines also benefited from training in strategies for generating revenue and increasing digital subscriptions. Annual funding for small magazines was provided to *Envoi*, *Scintilla* and *Roundyhouse*.



Darllen beiddgar Dynodwyd 2016 yn Flwyddyn Antur gan Lywodraeth Cymru. Gall darllenwyr sy'n dymuno profi cyffro heb symud o'u cadair freichiau droi at deitlau megis *A Life on the Edge* (Carreg Gwalch) gan y mynyddwr enwog Eric Jones, a fu ar un adeg yn styntiwr ar gyfer y ffilmiau James Bond, neu *The Pen y Gwryd Hotel* (Gomer) lle mae Jim Perrin, Jan Morris, Norbu Tenzing Norgay ac eraill yn adrodd hanesion am y gwesty wrth droed yr Wyddfa sy'n ganolfan i fynydda ym Mhrydain. Gall darllenwyr iau fwynhau teitlau o'r ôl-restr, megis *Amazing Adventurers* (Atebol).


Balchder yn ein treftadaeth lenyddol Mae'r gyfres Library of Wales bellach yn cynnwys 43 o deitlau, a gwerthwyd dros 70,000 o gopiau. Gwerthwyd hawliau i'r teitlau mewn gwledydd tramor, ac astudir y llyfrau cyn belled i ffwrdd â Siapan. Mae'r fenter hon, dan nawdd Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno teitlau clasurol i genhedlaeth newydd o ddarllenwyr, a hynny dan arweiniad Dai Smith, Golygydd y Gyfres, a thrwy arbenigedd y cyhoeddwr, Parthian. Eleni, ychwanegwyd *Old Soldier Sahib* ac *Old Soldiers Never Die* gan Frank Richards at y gyfres.

Cyrraedd y darllenwyr Mae grantiau marchnata'n hollbwysig er mwyn rhoi sylw i lyfrau o Gymru yn y farchnad lyfrau Saesneg. Ymhlith y llyfrau a gefnogwyd yn 2015/16 roedd *The Tradition* gan Peter Lord (Parthian), *Luca, Son of the Morning* gan Tom Anderson (Accent Press), *Significance* gan Jo Mazelis (Seren), hunangofiant J. J. Williams (Y Lolfa), *Queen of the Sky* gan Jackie Morris (Graffeg), *For Those Who Come After* gan Gary Raymond (Parthian), a *One Moonlit Night* gan T. Llew Jones, a gyfieithwyd gan Gillian Clarke (Pont).

Reading dangerously The Welsh Government has designated 2016 as the Year of Adventure. Readers wishing to experience an adrenaline rush from the safety of their armchairs can turn to titles such as *A Life on the Edge* (Carreg Gwalch) by mountaineer and one-time Bond stunt-double, Eric Jones, or *The Pen y Gwryd Hotel* (Gomer) as Jim Perrin, Jan Morris, Norbu Tenzing Norgay and others recount their stories of the home of British mountaineering at the foot of Snowdon. Younger readers can enjoy backlist titles such as *Amazing Adventurers* (Atebol).

A proud literary heritage The Library of Wales series has now reached 43 titles in total and has achieved sales of over 70,000 copies. Foreign rights to the titles have been sold and the books have been studied as far afield as Japan. This Welsh Government initiative brings classic titles to a new generation of readers under the guidance of Series Editor, Dai Smith, and through the publishing expertise of Parthian. This year saw the publication of *Old Soldier Sahib* and *Old Soldiers Never Die* by Frank Richards.

Reaching readers Marketing grants are vital in providing visibility for books from Wales in the English-language market. Amongst the books that received support in 2015/16 were *The Tradition* by Peter Lord (Parthian), *Luca, Son of the Morning* by Tom Anderson (Accent Press), *Significance* by Jo Mazelis (Seren), the autobiography of J. J. Williams (Y Lolfa), *Queen of the Sky* by Jackie Morris (Graffeg), *For Those Who Come After* by Gary Raymond (Parthian), and *One Moonlit Night* by T. Llew Jones, translated by Gillian Clarke (Pont).



Tabl 5 Crynodeb o Wariant y Grantiau Cyhoeddi Saesneg 2015/16**Table 5 Summary of English-language Publishing Grants Expenditure 2015/16**

Grant Llenyddiaeth Saesneg / English Literature Grant		£
Cylchgronau Refeniw / Revenue Magazines		173,807.75
Cyhoeddwyr Llyfrau Refeniw / Revenue Book Publishers		224,960.00
Grantiau Unigol / Individual Grants		58,000.00
Comisiynau / Commissions		0.00
Cylchgronau Bach / Small Magazines		2,400.00
Hyfforddiant / Training		2,181.84
		461,349.59
Arian Ychwanegol ar gyfer Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru / Additional Funding for Welsh Writing in English		
Marchnata / Marketing		50,940.00
Penodiadau / Appointments		66,715.00
Blaendal i Awduron / Author Advance		48,550.00
Clasuron / Classics		40,119.54
		206,324.54
Cyfanswm Grant Saesneg / Total English-language Grant		667,674.13
Grant i Lyfrau Plant / Children's Books Grant		500.00

Tabl 6 Grant Llenyddiaeth Saesneg – Llyfrau a Chylchgronau Refeniw 2015/16**Table 6 English-language Literature Grant – Books and Revenue Magazines 2015/16**

		Rhifynnau / Issues	Grant £
Cylchgronau Refeniw /	Planet	4	50,000.00
Revenue Magazines	New Welsh Review	11	50,000.00
	Poetry Wales	3	25,000.00
	The Welsh Agenda & Click on Wales*	2	25,000.00
	Wales Arts Review	24	20,000.00
	Hyfforddiant / Training		3,807.75
		44	173,807.75
* 2 rifyn print o The Welsh Agenda a chynnwys ar-lein rheolaidd ar Click on Wales			
* 2 print issues of The Welsh Agenda plus regular online content on Click on Wales			
		Teitlau / Titles	
Cyhoeddwyr Llyfrau Refeniw /	Gwasg Gomer**	15	47,132
Revenue Book Publishers	Seren	20	94,035
	Parthian	12	50,073
	Honno**	7	33,720
		54	224,960
Grantiau Unigol /	Seren	1	2,000
Individual Grants	Cinnamon Press	8	16,000
	Firefly Press	1	2,200
	Gwasg Carreg Gwalch	7	13,500
	Rily	1	2,950
	Square Books	1	300
	Gwasg Prifysgol Cymru / University of Wales Press	5	8,400
	Y Lolfa	5	12,650
		29	58,000

** yn cynnwys 3 thaliad chwarterol yn unig, gan i'r taliad chwarterol cyntaf ar gyfer 2015/16 gael ei dalu o 2014/15 / includes 3 quarterly payments only since the first quarterly payment for 2015/16 was paid from 2014/15

Tabl 7 Cynllun Blaendal Awduron Saesneg
Table 7 Author Advance Scheme for English-language Writers

Llyfrau a gyhoeddwyd 2015/16 / Books published 2015/16

Cyhoeddwr / Publisher	Teitl / Title	Awdur / Author
Firefly Press	Lost on Mars	Paul Magrs
Firefly Press	Aubrey and the Terrible Yoot	Horatio Clare
Firefly Press	Dragon White	Shoo Rayner
Graffeg	A Dylan Odyssey	Various, ed. Literature Wales
Graffeg	Scarlets: The Official History	Alun Gibbard
Graffeg	Queen of the Sky	Jackie Morris
Graffeg	Landscape Wales 2	Terry Stevens
Gwasg Carreg Gwalch	A Life on the Edge	Eric Jones & Greg Lewis
Gwasg Gomer	Great Rugby Moments	Gareth Edwards & Alun Wyn Bevan
Parthian	The Tradition: A New History of Welsh Art 1400-1990	Peter Lord
Parthian	The Flight of Sarah Battle	Alix Nathan
Parthian	1519: A Journey to the End of Time	John Harrison
Parthian	Hiraeth	Steph Davies
Y Lolfa	Wales Defeated England	Lynn Davies
Y Lolfa	Goughy: A Tough Lock to Crack	Ian Gough & Peter Owen
Y Lolfa	JJ Williams: The Life and Times of a Rugby Legend	Peter Jackson
Y Lolfa	The Dragon Roars Again	Jamie Thomas



Honno'n dathlu blwyddyn nodedig

Yn 2016 mae Honno, Gwasg Menywod Cymru, yn dathlu 30 mlynedd fel cyhoeddwr. Sefydlwyd y wasg yn 1986 gan bedair ffrind, yn eistedd o gwmpas bwrdd cegin, oedd yn awyddus i roi llwyfan cyhoeddi i ferched o Gymru. Dros y tri degawd nesaf daethant yn gwmni llewyrchus a berchir gan y diwydiant, gan dderbyn clod y beirniaid, denu awduron dawnus a darllenwyr ffyddlon, a chyhoeddi ystod eang o deitlau llenyddol a phoblogaidd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae Honno yn un o bedwar cyhoeddwr sy'n derbyn Grant Cyhoeddi Refeniw ar gyfer eu teitlau Saesneg. Mae'r grant tair blynedd hwn yn darparu arian ar gyfer rhaglen gyhoeddi, ynghyd â chostau cyffredinol, i gyhoeddwr sefydledig yng Nghymru sy'n cynhyrchu llyfrau o safon uchel, gan hyrwyddo uchelgais a phroffesiynoldeb yn y sector. Y gweisg eraill sy'n derbyn y grant ar hyn o bryd yw Seren, Parthian a Gomer. Mae'r enghreifftiau o waith gwyb gan ferched o Gymru a gyhoeddwyd dan y cynllun yn 2015/16 yn cynnwys *The Seasoning* (Honno), cyfrol Saesneg gyntaf yr awdur adnabyddus Manon Steffan Ros, cyfrol bwerus Jasmine Donahaye, *Losing Israel* (Seren), ac yn fwy diweddar, *Pigeon* gan Alys Conran (Parthian), nofel gyntaf feistrolgar y cyhoeddwyd fersiynau Saesneg a Chymraeg ohoni yr un pryd, gyda'r addasiad Cymraeg, *Pijin*, o waith Sian Northey.

Honno celebrate a landmark year

In 2016 Honno Welsh Women's Press celebrate 30 years in publishing. The press was formed in 1986 by four friends around a kitchen table who wished to give Welsh women writers a publishing platform. During the next three decades they became a force to be reckoned with, achieving critical acclaim and attracting accomplished writers and loyal readers and publishing an array of literary and popular titles in English and Welsh. Honno is one of four publishers in receipt of a Revenue Publishing Grant for their English-language titles. This three-year grant provides funding for a publishing programme plus overheads for established publishers of high-quality books in Wales, and promotes ambition and professionalism in the sector. The other current recipients are Seren, Parthian and Gomer. Examples of the excellent Welsh women's writing published across the scheme in 2015/16 include *The Seasoning* (Honno), acclaimed Welsh-language author Manon Steffan Ros's first book in English, Jasmine Donahaye's powerful *Losing Israel* (Seren), and more recently, *Pigeon* by Alys Conran (Parthian), a masterful first novel published simultaneously in English and Welsh, with the Welsh translation, *Pijin*, being the work of Sian Northey.



Awduron Honno a fu'n rhan o'r dathlu, (o'r chwith) Juliet Greenwood, Caroline Ross, Carol Lovekin, Judith Barrow, Thorne Moore, Alison Layland
Honno authors who attended the celebration, (from left) Juliet Greenwood, Caroline Ross, Carol Lovekin, Judith Barrow, Thorne Moore, Alison Layland

Golygu a Dylunio

Editing and Design

MAE'R ADRAN OLYGYDDOL a'r Adran Ddylunio yn cynnig gwasanaeth arbenigol i gyhoeddwr Cymru ac yn ymdrin hefyd â deunyddiau'r Cyngor ei hun, yn gatalogau a thafleuni hyrwyddo, adroddiadau a datganiadau i'r wasg, a dogfennau mewnol o bob math. Gan fod y Cyngor yn noddi swyddi golygyddion comisiynu neu olygyddion creadigol yn y tai cyhoeddi unigol, mae'r Adran Olygyddol yn canolbwyntio ar y gwaith golygu copi a phrawfddarlenn, dwy elfen hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn ddarlennadwy ac yn gywir.

Mae'r Adran Ddylunio'n cynnig gwasanaeth dylunio cloriau, a hefyd yn cynorthwyo'r cyhoeddwr drwy ddylunio rhai llyfrau o glawr i glawr. Cynnal safonau a gwella ansawdd y deunyddiau a gyhoeddir yng Nghymru yw nod y ddwy adran, ac mae gweithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan y cyhoeddwr eu hunain yn elfen hollbwysig o'u gwaith.

Mynychwyd rhai o'r dyddiau hyfforddi a drefnwyd gan yr Adran Grantiau Cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Cafodd pennaeth newydd yr Adran Olygyddol gyfle i roi cyflwyniad i olygyddion y gweisg mewn cwrs undydd a gynhaliwyd yng Nghastell Brychan ym mis Mehefin y llynedd, a darparwyd sesiynau hefyd gan staff y ddwy adran fel rhan o'r diwrnod hyfforddiant cyntaf erioed i'w neilltuo ar gyfer cylchgronau, a gynhaliwyd yn y Morlan, Aberystwyth ym mis Ebrill eleni.








THE EDITORIAL DEPARTMENT and the Design Department offer a specialist service to the publishers of Wales and deal also with the Council's own publications, such as catalogues and promotional leaflets, reports and press releases, and a variety of internal documents. As the Council supports the posts of commissioning or creative editors in the individual publishing houses, the Editorial Department focuses on copy editing and proofreading – two essential elements in the process of ensuring that the final copy is both readable and accurate.

The Design Department offers a cover-design service, and it also assists publishers by designing some books from cover to cover. The main aim of both departments is to raise the standards and improve the quality of the material published in Wales, and working in partnership with those employed by the publishers themselves is a vital element of their work.

During the year, staff had an opportunity to attend some of the training days organized by the Publishing Grants Department. The new head of the Editorial Department gave a presentation to the editors of the various publishing houses during a one-day course held at Castell Brychan in June last year, and the staff of both

departments provided sessions as part of the first ever training day held for the staff of magazines, held at the Morlan Centre, Aberystwyth, in April of this year.






Gwasanaeth i gyhoeddwr ac awduron

Yn ystod y flwyddyn ymdriniodd yr Adran Olygyddol â 186 o deipysgrifau i 13 o gyhoeddwr. Rhoddwyd gwasanaeth dylunio gan yr Adran Ddylunio i 110 o deitlau gan 8 cyhoeddwr.

Cynnyrch y flwyddyn Eleni eto daeth amrywiaeth eang o deipysgrifau drwy'r Adran Olygyddol: addasiadau o lyfrau bwrdd lliwgar i'r plant ieuengaf, llyfrau ffeithiol a nofelau i blant ac ieuencid, yn ogystal â chyfrolau o farddoniaeth, nofelau a deunydd cofiannol i oedolion. Cafwyd cyfle i weithio ar nofelau buddugol Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015, sef *Veritas* gan Mari Lisa, a enillodd Wobr Goffa Daniel Owen, a *Dwy Farwolaeth Endaf Rowlands* gan Tony Bianchi, enillydd y Fedal Ryddiaith. Buom yn ffodus hefyd i gael gweithio ar bump o'r cyfrolau a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn

Services to publishers and authors During the year the Editorial Department dealt with 186 typescripts for 13 publishers. The Design Department provided a design service in respect of 110 titles for 8 publishers.

The year's output Again this year, the Editorial Department worked on a wide variety of typescripts: adaptations of colourful board books for very young children, factual books and novels for children and young adults, together with volumes of poetry, novels and biographical works for adults. There was an opportunity to work on the novels that won major awards at the 2015 National Eisteddfod held at Meifod in Montgomeryshire – *Veritas* by Mari Lisa, winner of the Daniel Owen Memorial Award, and *Dwy Farwolaeth Endaf Rowlands* by Tony Bianchi, winner of the Prose Medal. We were also fortunate to be able to work on five of the titles that reached the shortlist of the Wales Book of the Year



2016: *Nes Draw* Mererid Hopwood, *Hel Llus yn y Glaw* Gruffudd Eifion Owen, ac *Eiliadau Tragwyddol* Cen Williams (barddoniaeth); *Norte* gan Jon Gower (ffuglen); ac *Is-deitla'n Unig* Emyr Glyn Williams (ffeithiol greadigol). Golygwyd yn ogystal enillydd categori cynradd Gwobr Tir na n-Og 2016, sef *Pedair Cainc y Mabinogi* gan Siân Lewis a Valérieane Leblond.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill, a ninnau'n dathlu canmlwyddiant geni T. Llew Jones yn 2015, yr oedd golygu argraffiadau newydd Gwasg Gomer o'i nofelau adnabyddus i blant, ac a 2016 yn flwyddyn canmlwyddiant Roald Dahl fe weithiwyd ar addasiadau Rily o'i gerddi yntau i blant ac oedolion. Braint oedd cael darllen cyfrol olaf y bardd a'r ysgolhaig poblogaidd Gwyn Thomas a fu farw eleni, sef ei hunangofiant llenyddol *Llyfr Gwyn*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau Barddas yn Hydref 2015.

Bu swmp ac amrywiaeth y gwaith yn sylweddol, ac rydym yn ddyledus eto eleni i dîm bychan o olygyddion allanol am eu cymorth gwerthfawr, yn enwedig ar adegau prysuraf y flwyddyn.

Adolygiadau Yr Adran Olygyddol sy'n gyfrifol am gomisiynu a phrosesu'r adolygiadau o lyfrau Cymraeg a Saesneg a welir ar wefan Gwales. Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd 215 o adolygiadau newydd i'r wefan, ac rydym yn ddiolchgar unwaith eto i'r golygyddion adolygiadau am eu cydweithrediad.

Y Panel Dylunio Rhoddodd D. Geraint Lewis (Cadeirydd) ac Owen Williams y gorau i'w haelodaeth o'r Panel Dylunio. Diolchir iddynt am eu gwasanaeth, gan edrych ymlaen at gydweithio â thri aelod newydd, sef Jane Aaron (Cadeirydd), Elinor Wigley ac Angharad Morgan, sy'n ymuno â Gordon Jones a Bethan Mair. Mae cyfarfod blynyddol y grŵp yn gyfle gwerthfawr i staff yr Adran Ddylunio drafod cloriau a diwyg llyfrau'r flwyddyn a fu yng nghwmni rhai sy'n hyddysg yn y maes.

Award 2016: *Nes Draw* by Mererid Hopwood, *Hel Llus yn y Glaw* by Gruffudd Eifion Owen, and *Eiliadau Tragwyddol* by Cen Williams (poetry); *Norte* by Jon Gower (fiction); and *Is-deitla'n Unig* by Emyr Glyn Williams (creative non-fiction). In addition, the department edited the winning title in the primary school category of the 2016 Tir na n-Og Awards, *Pedair Cainc y Mabinogi* by Siân Lewis and Valérieane Leblond.

As we celebrated the centenary of T. Llew Jones's birth in 2015, one of the highlights of the year was editing Gomer Press's new editions of his well-known novels for children, and for Roald Dahl's centenary year in 2016 we worked on adaptations published by Rily of his poems for children and adults. It was an honour to read *Llyfr Gwyn*, the last book to be written by Gwyn Thomas, the popular poet and academic, who died earlier this year; this literary memoir was published by Cyhoeddiadau Barddas in October 2015.

The volume and variety of the year's work has been substantial, and we are once more indebted to a small team of freelance editors for their invaluable assistance, particularly at the busiest times of the year.

Reviews The Editorial Department is responsible for commissioning and processing the reviews of English- and Welsh-language titles that appear on the Gwales website. During the year 215 new reviews were added to the website, and we are grateful once again to the review editors for their co-operation.

The Design Panel D. Geraint Lewis (Chair) and Owen Williams retired from the Design Panel. We thank them for their service, and look forward to working with three new members – Jane Aaron (Chair), Elinor Wigley and Angharad Morgan, who join Gordon Jones and Bethan Mair. The annual meeting of the group provides a valuable opportunity for the staff of the Design Department to discuss the covers and format of books published during the year, in the company of people who are knowledgeable in the field.

Rhoi eich barn a bwrw'ch bol


Wrth osod adolygiadau ar Gwales, rhoi sylw i rai o gyfrolau newydd cyhoeddwy'r Cymru yw'r nod, a bellach mae bron 7,000 o adolygiadau i'w gweld ar y wefan. Bydd yr Adran Olygyddol yn dewis pa lyfrau i'w hadolygu wrth iddyn nhw gyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu. Anelir at gael adolygiadau safonol a theg o drawstoriad o deitlau gan amryw o'r gweisg, diolch i ddiwydrwydd y trefnwyr – Sarah Down-Roberts: llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion; Suzy Adams Hughes: llyfrau Saesneg i oedolion; a Wendy Crockett: llyfrau Saesneg i blant – ynghyd â'u rhwydwaith o adolygwyr profiadol. Wedi i'r adran olygu'r adolygiadau a'u llwytho ar Gwales, dewisir rhai ar gyfer rhifyn Sadwrn y *Western Mail*. Yn ogystal, gwneir pob ymdrech i sicrhau adolygiadau pwrpasol ar gyfer teitlau megis enillwyr Llyfr y Flwyddyn a Wales Book of the Year, enillwyr Gwobrau Tir na n-Og a chyfrolau arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond nid cyfranwyr penodedig yn unig sydd wrthi; os ydych wedi cael blas ar un o lyfrau Gwales, beth am fwrw'ch bol ac anfon pwt atom drwy ddewis y botwm 'adolygiad cwsmer' sydd i'w weld wrth fanylion pob cyfrol? Mae dros 950 o'r rhain i'w cael ar Gwales eisoes gan ddarllenwyr o bob oed ac o bob cwr o'r byd.

Speaking your mind

By placing reviews of books on Gwales, the aim is to promote new titles supplied by publishers in Wales; to date, almost 7,000 reviews can be seen on the website. As new books arrive at the Distribution Centre, the Editorial Department selects which titles to review. The aim is to include balanced, high-quality reviews of a cross-section of titles published by a variety of publishers. This is made possible thanks to the efforts of the review editors – Sarah Down-Roberts: Welsh-language books for children and adults; Suzy Adams Hughes: English-language books for adults; and Wendy Crockett: English-language books for children – together with their network of experienced reviewers. After the Department has edited the reviews and uploaded them to the Gwales website, some are selected for publication in the Saturday edition of the *Western Mail*. Every effort is made to provide appropriate reviews for titles such as the winners of the Welsh- and English-language Wales Book of the Year, the award-winning Tir na n-Og titles, and the prize-winning books at the National Eisteddfod.

Reviews are not only submitted by selected contributors; if you have enjoyed one of the books available on Gwales, why not speak your mind and send us your opinion by selecting the 'customer review' button that follows the details of every title? Over 950 of these reviews, contributed by readers of all ages and from all over the world, can already be seen on Gwales.





"An exquisite novel by a great new talent."
M.J. Hyland

PIGEON

ALYS
CONRAN

Dosbarthu, Gwerthu a Marchnata Distribution, Sales and Marketing

UNWAITH ETO, roedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un heriol i'r diwydiant llyfrau yng Nghymru. Un o swyddogaethau pwysicaf yr adran yw cefnogi llyfrwerthwyr drwy Gymru benbaladr, gan anelu at gynyddu gwerthiant pob cyfrif a ddelir gan y Ganolfan Ddosbarthu.

Mae'r adran yn parhau i gefnogi siopau llyfrau annibynnol drwy gyfrwng y Cynllun Ymestyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16, defnyddiwyd arian y cynllun i gefnogi 315 o ddigwyddiadau lle gwerthwyd llyfrau gwerth cyfanswm o £133,000. Yn ogystal, trefnodd yr adran tua 200 o sesiynau llofnodi llyfrau a digwyddiadau eraill ar ran y cyhoeddwr. Cynhelir y digwyddiadau'n bennaf yn ystod y cyfnod prysur rhwng Medi a Rhagfyr, ond gwnaed ymdrech arbennig eleni i ddatblygu rhaglen oedd yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan. Un o brif amcanion yr adran yw sicrhau bod gwerthiant llyfrau'n cael ei sianelu drwy'r llyfrwerthwyr, ac i'r diben hwnnw cefnogwyd llyfrwerthwyr i fynychu nifer o ddigwyddiadau, megis Gŵyl Llên Plant Caerdydd, y Ffair Wanwyn yn Llanelwedd, y Fedwen Lyfrau a gynhaliwyd eleni ym Merthyr Tudful, a Thafwyl yng Nghaerdydd.

Mae misoedd y gwanwyn a'r haf yn rhai prysur i'r adran, gan mai hi sy'n gyfrifol am drefnu presenoldeb y Cyngor mewn dwy o'r prif wyliau – y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd y llynedd ym Maldwyn. Buom hefyd yn cydweithio'n agos â Siop y Bont, Pontypridd, a gludodd amrywiaeth eang o lyfrau i Eisteddfod yr Urdd yng

THE PAST FINANCIAL year was another challenging one for the book industry in Wales.

One of the most important roles of the department is supporting booksellers throughout Wales and ultimately maximising the sales of each account held with the Distribution Centre.

The department continues to support independent bookshops through the Outreach Scheme. During the 2015/16 financial year, funding from the scheme supported 315 events which generated total sales of £133,000. In addition, the department organized about 200 signing sessions and events on behalf of the publishers. These events are mainly held in the busy September to December period, but we also saw a concerted effort to develop an all-year programme. One of the main aims of the department is to ensure that book sales are channelled through the bookshops, and to achieve that aim booksellers were supported in attending events such as the Children's Literature Festival in Cardiff, the Spring Fair in Builth Wells, the Fedwen Lyfrau bookfair which was held this year at Merthyr Tydfil, and Tafwyl in Cardiff.

The spring and summer months are a busy time as the department is responsible for organizing the Council's presence at two of the main national festivals – the Royal Welsh Show at Builth and the National Eisteddfod which last year was held in Montgomeryshire. We also worked in close co-operation with Siop y Bont, Pontypridd, who took a large selection of books to the Urdd Eisteddfod in

Nghaerffili, ac â siop lyfrau Gŵyl y Gelli i sicrhau bod llyfrau o Gymru'n cael eu harddangos mewn lle blaenllaw. Pleser o'r mwyaf oedd gweld rhai o'r llyfrau o Gymru'n ymddangos ar restr gwerthwyr gorau'r ŵyl.

Rhoddir cymorth i lyfrwerthwyr annibynnol yn ogystal, yn seiliedig ar eu trosiant yn y Ganolfan Ddosbarthu. Yn 2015/16 dosbarthwyd cyfanswm o £33,016 rhwng 18 o siopau llyfrau. Yn y cyfnod ar ôl y Nadolig, trefnodd yr adran sêl o lyfrau plant, gan werthu 4,460 o lyfrau gwerth cyfanswm o £12,700. Cydweithiwyd unwaith yn rhagor â Llenyddiaeth Cymru i sicrhau bod y teitlau ar restr fer Gwobrau Llyfr y Flwyddyn yn cael eu dosbarthu i dros 50 o siopau, ac â Radio Cymru a fu'n gyfrifol eto eleni am drefnu'r ymgyrch Wythnos Siopau Llyfrau gyda rhaglenni'n cael eu darlledu o siopau llyfrau mewn gwahanol rannau o Gymru – Llanrwst, Pontypridd, Crymych a Phorthaethwy.

Dosbarthu Prydlondeb ac effeithlonrwydd yw prif flaenoriaethau'r Ganolfan Ddosbarthu wrth i'r staff ymdrechu i ddosbarthu'r llyfrau i'r siopau. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn meincodi'r gwasanaeth yn fisol fel y bo modd ei arolygu er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion y farchnad. Braf nodi bod 98% o'r archebion dyddiol yn cael eu dosbarthu'r un diwrnod ag y cawsant eu harchebu.

Caerphilly, and with the Hay Festival bookshop to ensure that books from Wales had a high visible presence in the shop. It was very pleasing to see some of the books from Wales appear on the festival's bestseller list.

Support is also given to individual booksellers based on their annual turnover through the Distribution Centre. In 2015/16 the sum of £33,016 was distributed among 18 bookshops. The department organized a sale of children's books in the post-Christmas period that generated sales of 4,460 books worth £12,700. We again worked in co-operation with Literature Wales to ensure that the titles on the shortlist for the Book of the Year Awards are distributed to over 50 shops, and in conjunction with Radio Cymru who once more ran the Wythnos Siopau Llyfrau campaign (Welsh-language independent bookshop week) with programmes broadcast from bookshops across the length and breadth of Wales – Llanrwst, Pontypridd, Crymych and Menai Bridge.

Distribution Punctuality and efficiency are the Distribution Centre's main priorities as the staff strive to distribute the books to the shops. To this end, the Council benchmarks the service on a monthly basis so that it can be reviewed regularly to ensure that it meets the demands of the market. It is pleasing to note that 98% of the orders received daily are distributed on the same day they were ordered.



Isreolwr tîm pêl-droed Cymru, Osian Roberts, yn llofnodi copïau o'i lyfr ar stondin y Cyngor Llyfrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol Osian Roberts, Assistant Manager of the Wales football team, signing copies of his book at the Books Council stand at the National Eisteddfod



Cyfnod pwysig iawn i'r Ganolfan bob blwyddyn yw cyfnod gwerthiant y Nadolig. Dosbarthwyd cyfanswm o 60,000 o lyfrau ym mis Rhagfyr, a oedd yn cynnwys 21,000 o deitlau. Cwmni Yodel yw prif ddosbarthwr parseli'r Ganolfan erbyn hyn, ac mae'n bwysig nodi bod 98.94% o'r 2,000 o barseli a ddosbarthwyd ym mis Rhagfyr wedi cael eu dosbarthu ganddynt o fewn 24 awr wedi iddynt adael y Ganolfan.

Rhan fawr o waith y Ganolfan yw cyflenwi llyfrau i lawer o wyliau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Casglwyd a dosbarthwyd 8,000 o lyfrau i Eisteddfod yr Urdd ac i'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Gŵyl fwyaf y flwyddyn o ran dosbarthu a gwerthiant yw'r Eisteddfod Genedlaethol, ac fe ddosbarthwyd 15,000 o lyfrau i Eisteddfod Meifod y llynedd gan werthu 36% ohonynt.

Erbyn hyn mae pawb yn ymwybodol iawn o effeithiau'r sefyllfa economaidd ar siopau'r stryd fawr, ac mae'r angen i reoli lefel y dyledwyr yn hollbwysig. Eleni fe lwyddwyd i gyfyngu nifer y dyledwyr nad oeddynt wedi cadw at eu telerau talu i 0.74%, o'i gymharu â 0.97% y llynedd. Targed blynyddol y Ganolfan yw 2%. Cynhaliwyd y cyfrif stoc blynyddol ym mis Ionawr. Ychydig yn uchel oedd canran y newidiadau'r llynedd gan nad oedd cyfrif wedi ei wneud y flwyddyn cynt oherwydd gwaith casglu llyfrau cynllun ysgolion AdAS, ond eleni roedd canran y newidiadau wedi gostwng i'r lefel arferol, sef 4.38%.

The run-up to Christmas every year is a very important period for the Distribution Centre. Last December, a total of 60,000 books were distributed, comprising some 21,000 titles. Currently, Yodel is the main distributor of the Centre's parcels, and it is important to note that 98.94% of the 2,000 parcels distributed by them in December reached their destination within 24 hours of leaving the Centre.

A large part of the Centre's work is to supply books to several different festivals during the year. Last year, 8,000 books were collected and distributed to the Urdd Eisteddfod and the Royal Welsh Show at Builth Wells. The largest festival of the year, in terms of distribution and sales, is the National Eisteddfod, and 15,000 books were distributed to the Eisteddfod at Meifod last year, with 36% of them being sold.

The detrimental effects of the current economic situation on high street shops are evident to us all, and in this climate it is vital to manage the number of debtors. This year, we succeeded in restricting the number of debtors who had failed to adhere to their terms to 0.74%, compared with 0.97% last year. The Distribution Centre's annual target is 2%. The annual stocktake was undertaken in January. The percentage of changes last year was rather high, due to the fact that no stocktake had been undertaken during the previous year because of the work involved in collecting books for the DfES 'books for schools' scheme; this year, however, the percentage of changes had reverted to the usual level of 4.38%.

Gwerthu a marchnata Ar hyn o bryd, mae yna chwe chynllun Llyfr y Mis gwahanol, sy'n parhau i hyrwyddo llyfrau ar draws y sbectrwm, o lyfrau plant i lyfrau llenyddol ar gyfer oedolion, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. I gynorthwyo ymhellach gyda'r gwaith o hyrwyddo'r cynlluniau hyn dosberthir poster i hyrwyddo, a bellach caiff pennod gyntaf pob llyfr ei chylchredeg i'r llyfrwerthwyr.

Er mwyn cynnig cymorth pellach i lyfrwerthwyr, byddwn yn cynhyrchu amrywiaeth o daflenni a chatalogau yn Gymraeg a Saesneg drwy gydol y flwyddyn, megis *Llyfrau'r Haf*, *Gwledd y Nadolig*, *Summer Reads*, *Festive Reads* a chatalog Nadolig cwmni Waterstones. Anfonir y rhain nid yn unig at lyfrwerthwyr a llyfrgellwyr, ond dosberthir hwy hefyd drwy'r papurau bro a phapurau newydd y *Western Mail* a'r *Daily Post*. Ac eleni, mewn ymdrech arbennig i gefnogi a dathlu'r ysgrifennu Saesneg gorau o Gymru, cynhyrchwyd catalog o weithiau clasurol a chyfoes. Elfen bwysig arall yn y gwaith o farchnata a gwerthu llyfrau o Gymru yw'r hysbysebion teledu a gynhyrchir mewn partneriaeth ag S4C. Yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr dangoswyd tair hysbyseb ar S4C ar fwy na 200 o achlysuron.

Mae'r cynadleddau gwerthu a drefnir ym misoedd Ionawr a Mehefin yn fodd i ddarparu cyswllt hollbwysig rhwng yr adran a'r cyhoeddwywyr unigol, gan eu bod yn gyfle gwyh i drafod teitlau sydd ar y gweill. Unwaith eto, trefnodd yr adran gyfarfod blynyddol ar gyfer yr holl gyhoeddwywyr Saesneg eu hiaith sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, oherwydd ein bod o'r farn fod yna nifer o ymgyrchoedd y gallai cyhoeddwywyr weithio arnynt ar y cyd, heb amharu ar ymdrechion unigol. Eleni, estynnwyd gwahoddiad i ddau lyfrwerthwr – un yn cynrychioli'r sector annibynnol a'r llall y siopau llyfrau cadwyn – i ymuno â ni yn y cyfarfod i drafod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae'r adran yn gyfrifol am reoli tua 130 o droellwyr mewn lleoliadau drwy Gymru benbaladr, o Felin Llynnon ar Ynys Môn i Faes Awyr Caerdydd. Rydym hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun tocynnau llyfrau, ac roedd gwerth y tocynnau a werthwyd yn ystod y flwyddyn yn £30,000.

Sales and marketing Currently there are six different Book of the Month schemes which continue to promote books across the spectrum, from children's books to adult literary titles in both Welsh and English. To help further promote these schemes, promotional posters are distributed and the first chapter of each book is now circulated to booksellers.

In order to provide further support to booksellers we produce various leaflets and catalogues in Welsh and English during the year, such as *Llyfrau'r Haf*, *Gwledd y Nadolig*, *Summer Reads*, *Festive Reads* and the *Waterstones Christmas Catalogue*. These are sent to booksellers and libraries, and are also distributed through the *papurau bro* (community newspapers) and the *Western Mail* and *Daily Post* newspapers. And this year, in a special effort to support and celebrate the best of Welsh writing in English, a catalogue of classic and contemporary writing was produced. Another important tool to help market and sell books from Wales is the television adverts that are produced in conjunction with S4C. During the months of November and December three adverts were shown on S4C in over 200 slots.

The sales conferences that are organized in January and June provide a vital link between the department and the individual publishers, as they offer an excellent opportunity to discuss forthcoming titles. We again facilitated an annual meeting for all the English-language publishers based in Wales, as we believe that there are a number of campaigns that publishers could work on jointly without having to compromise individual efforts. This year, an invitation was extended to two booksellers representing the independent and book chain sectors to join us at the meeting to discuss the challenges and opportunities facing the industry.

The department is responsible for managing in the region of 130 spinners that are situated throughout Wales, and range from Llynnon Mill in Anglesey to Cardiff Airport. We are also responsible for running the book voucher scheme; a total of £30,000 worth of vouchers were sold during the year.

Y Ganolfan yn codi'r to!

Adeiladwyd cartref y Ganolfan Ddosbarthu yn ôl yn yr wythdegau cynnar, ac ers rhai blynyddoedd roedd traul amser wedi dechrau gadael ei ôl ar yr adeilad. Y brif broblem oedd cyflwr to'r warws, a bu'n rhaid ymchwilio ac ymgynghori â chwmni arbenigol i gael eu barn ffurfiol er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.

Braf oedd cael cadarnhad yn Rhagfyr 2015 fod arian wedi ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru i drwsio'r to. Bu'n bosib felly inni ddechrau'r gwaith ym mis Chwefror eleni, gan droi at gwmni adeiladu OBR o Gaernarfon sydd yn arbenigwyr yn y maes hwn. Cafodd to'r Ganolfan dair côt o baent plastig arbennig a dwsin o ffenestri newydd. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i baentio'r waliau er mwyn sicrhau eu bod hwythau o'r un safon.

Ryw bedwar mis yn ddiweddarach fe gwblhawyd y gwaith, a hynny i safon uchel iawn. Yn bwysicach fyth, fe wnaed hynny heb amharu'n ormodol ar waith y Ganolfan o ddydd i ddydd.




The Distribution Centre raises the roof!

The Distribution Centre was built in the early 1980s, and in recent years time had taken its toll on the building. The main problem was the condition of the warehouse roof, and it was necessary to conduct research and consult with a specialist company in order to receive a formal opinion on how best to solve the problem.

We were glad to receive confirmation in December 2015 that funding had been earmarked by the Welsh Government to enable the roof to be repaired. It was therefore possible to commence the work in February of this year and the contract was awarded to OBR, a building company from Caernarfon who are specialists in the field. The Centre's roof was given three coats of special plastic paint and a dozen new windows were installed. The walls were also painted at the same time, to ensure that they too were of a similar standard.

The work was completed to a very high standard within a period of about four months. More importantly, there was minimum disruption to the day-to-day work of the Distribution Centre.



Gwasanaethau Gwybodaeth

Information Services

YR ADRAN Gwasanaethau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am gasglu a darparu gwybodaeth am lyfrau o Gymru, boed i'r fasnach lyfrau neu i'r cyhoedd yn gyffredinol; am gynnwys gwefannau'r Cyngor; ac am sicrhau bod gwybodaeth am lyfrau newydd a rhai sydd i'w cyhoeddi ar gael i'r siopau a'r tîm gwerthu. Mae'r gwefannau hyn yn cynnwys tri fersiwn o Gwales.com ar gyfer y cyhoedd, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd; gwefan gorfforaethol y Cyngor Llyfrau; a'r Fasnach Lyfrau Ar-lein. Darperir fersiwn all-lein o wefan Gwales at ddefnydd y cynrychiolwyr gwerthu, y swyddogion ysgolion a'r llyfrwerthwyr hynny sy'n mynychu digwyddiadau mewn mannau lle nad oes cyswllt â'r we.

Dyma'r adran hefyd sy'n ateb ymholiadau'r cyhoedd ac yn eu cynghori am lyfrau priodol. Diolch i'r wybodaeth a ddarperir gan y cyhoeddwr, a'r flaenoriaeth a roddir gan y staff i ddiweddarau'r gronfa'n brydlon, mae'r llyfrwerthwyr, llyfrgelloedd, y cynrychiolwyr a'r cyhoedd yn gallu troi at systemau Gwales am y manylion diweddaraf.

Oddi ar ymdeoliad Phil Davies fel Cyfarwyddwr Gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2015, gwneir y gwaith gan y Swyddog Gwybodaeth, Delyth Morgans Phillips, a Lowri Davies, Cynorthwydd Gweinyddol yr Adran Wybodaeth.

Gwales.com Mae gwefan Gwales.com yn cynnwys y rhestr fwyaf cynhwysfawr o lyfrau o Gymru ar y we. Mae manylion dros 40,000 o eitemau ar y gronfa, dros 19,300 ohonynt ar gael i'w harchebu. Cyrhaeddodd nifer defnyddwyr cofrestredig Gwales 23,100 (o'i gymharu â 21,100 ar ddiwedd 2014/15). Yn ogystal â gwybodaeth lyfryddol, cynhwysir bywgraffiadau a lluniau awduron, tablau cynnwys, gwybodaeth am ddigwyddiadau lansio, a fideos YouTube o weithgareddau hyrwyddo. Ceir yma hefyd dros 7,000 o adolygiadau ac ymatebion darllenwyr.

THE INFORMATION Services Department is responsible for collecting and disseminating information about books from Wales, whether to the book trade or to the general public; for the content of the Council's websites; and for ensuring that information about new and forthcoming titles is available to the shops and the sales team. These websites comprise three versions of Gwales.com for use by the general public, booksellers and libraries; the Books Council's corporate website; and the Welsh Book Trade Info website. An off-line version of the Gwales website is available for use by the sales representatives, the schools officers and those booksellers attending events in places where there is no internet connection.

The department also responds to enquiries from members of the public, and advises them on suitable books. As a result of the information provided by publishers, and the fact that members of staff give priority to the work of updating the database regularly, booksellers, libraries, sales representatives and members of the public are able to turn to the Gwales systems for the latest up-to-date information.

Since the retirement of Phil Davies as Director of Information in July 2015, the work has been carried out by the Information Officer, Delyth Morgans Phillips, and Lowri Davies, Administrative Assistant to the Information Department.

Gwales.com The Gwales.com website comprises the most comprehensive list of books from Wales on the web. Details of over 40,000 items are held on the database, more than 19,300 of which are available to order. The number of registered users of Gwales reached 23,100 (compared with 21,100 at the end of 2014/15). In addition to bibliographical information, the website also contains biographies and photographs of authors, contents tables, information about launch events, and YouTube videos of promotional activities. Also available on the website are over 7,000 book reviews and readers' responses.



Archebu electronig Darperir fersiwn o Gwales at ddefnydd llyfrwerthwyr yn unig, ac eleni gwelwyd gostyngiad o 12.8% yng ngwerth gros yr archebion electronig a anfonwyd i'r Ganolfan Ddosbarthu, sef £2,910,644 (2015/16) o'i gymharu â £3,337,477 (2014/15).

Gwales/llyfrgell Datblygwyd Gwales/llyfrgell i alluogi llyfrgellwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ffordd hwylus, ac i archebu'n electronig trwy siop lyfrau/cyflenwr o ddewis y llyfrgell. Wrth i'r llyfrgelloedd cyhoeddus wynebu toriadau, fodd bynnag, disgynnodd y gwerthiant ymhellach o £108,768 (2014/15) i £99,000 (2015/16), gostyngiad o 9%. Mae 158 o lyfrgellwyr wedi cofrestru fel defnyddwyr ar y wefan.

Gwefan Llyfrau.Cymru Mae'r wefan gorfforaethol llyfrau.cymru yn cynnwys gwybodaeth lawn am holl wasanaethau'r Cyngor, manylion y system grantiau cyhoeddi, manylion cyswllt yr holl staff, archif o gofnodion y Cyngor ac adroddiadau blynyddol, dogfennau corfforaethol, adroddiadau ymchwil ac archif newyddion. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwybodaeth am ymgyrchoedd hyrwyddo'r Cyngor, ac yn galluogi'r cyhoedd i anfon ymholiadau'n electronig at yr adran briodol o fewn y Cyngor.

Electronic ordering A version of the Gwales website is provided solely for the use of booksellers, and this year a decrease of 12.8% was seen in the gross value of the electronic orders sent to the Distribution Centre, i.e. £2,910,644 (2015/16) compared with £3,337,477 (2014/15).

Gwales/libraries Gwales/libraries was developed to enable librarians to obtain the latest information in a convenient way, and to place orders electronically through the bookshop/supplier of the library's choice. However, with public libraries facing cuts, sales fell further from £108,768 (2014/15) to £99,000 (2015/16), a fall of 9%. A total of 158 librarians are registered users of the website.

Books.Wales website The corporate website, books.wales, contains comprehensive information about all the Council's services, details of the publishing grants system, contact details of all members of staff, an archive of the Council's minutes and annual reports, corporate documents, research reports and a news archive. It also contains information about the Council's promotional campaigns, and enables the general public to send enquiries electronically to the appropriate departments within the Council.

Y Fasnach Lyfrau Ar-lein Ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr am y diwydiant cyhoeddi yw'r Fasnach Lyfrau Ar-lein. Mae un adran yn rhestru sefydliadau, cwmnïau ac unigolion hunangyflogedig sy'n berthnasol i'r byd cyhoeddi yng Nghymru, ac adran arall yn rhoi cyflwyniadau syml a chlir i hanfodion y byd cyhoeddi dan benawdau penodol. Mae'r eitemau Newyddion a welir ar holl wefannau'r Cyngor hefyd yn cael eu gweinyddu trwy'r wefan hon.

E-lyfrau Cynyddodd nifer yr e-lyfrau sydd ar werth ar wefan Gwales o 1,460 i 1,600, a'r teitlau Cymraeg o 264 i 294. Mae'r drefn a fabwysiadwyd i ddarparu e-lyfrau yn caniatáu i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru eu cynnig i'w benthycwyr. Hefyd, wrth brynu trwy Gwales.com mae modd i gwsmeriaid ddewis eu hoff siop lyfrau, a thelir comisiwn i'r siop a ddewisir.

Apiau Mae Ap Llyfrau Cymru ac Ap Cylchgronau Cymru ar gael ar gyfer teclynau iOS ac Android. Cynhyrwyd 52 teitl ar gyfer Ap Llyfrau Cymru (28 ohonynt yn y Gymraeg), a chynigir 39 rhifyn o wahanol gylchgronau ar Ap Cylchgronau Cymru. Hefyd, mae nifer o deitlau bellach ar gael ar fersiwn Flash ar gyfer y we. Mae modd i ddefnyddwyr Gwales, iTunes neu Google Play lawrlwytho'r *Catalog Llyfrau Plant* diweddaraf yn rhad ac am ddim, a'i ddarllen ar-lein.

Gwefannau cymdeithasol Erbyn hyn, mae dros 1,260 o unigolion yn nodi ar Facebook eu bod yn 'Hoffi' Gwales, ac mae dilynwyr ein cyfrifon Trydar wedi cynyddu ymhellach i 1,800 yn Gymraeg a 1,100 yn Saesneg. Cyhoeddir y newyddion diweddaraf am weithgareddau, gwobrau, cynlluniau hyrwyddo a digwyddiadau, a hynny ar amrantiad.

Technoleg gwybodaeth Yn sgil gosod rhwydwaith cyfrifiadurol newydd yng Nghastell Brychan y llynedd, fe aed ati i adnewyddu rhwydwaith y Ganolfan Ddosbarthu eleni er mwyn diogelu a chryfhau ein systemau cyswllt. Gwnaed hyn yn dilyn cais llwyddiannus am arian cyfalaf ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae'n rhan ganolog o'r gwaith o ddatblygu ein gwasanaethau i'r diwydiant. Rydym yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth yn y maes hwn.

Welsh Book Trade Info The WBTI website is a comprehensive source of information about the publishing industry in Wales. One section lists organizations, companies and self-employed individuals who provide services relevant to publishing in Wales, whilst another provides simple and clear guidelines regarding the essential elements of publishing, listed under specific headings. The News items seen on all the Council's websites are also administered through WBTI.

E-books The number of e-books for sale on the Gwales website increased from 1,460 to 1,600, with the Welsh-language titles increasing from 264 to 294. The system adopted to provide e-books allows public libraries in Wales to offer them to borrowers. Also, by buying through Gwales.com, customers are able to select their favourite bookshop, and commission is paid to the chosen bookseller.

Apps The Welsh Books App and the Magazines of Wales App are available for iOS and Android devices. A total of 52 titles have been produced for the Welsh Books App (28 of them in Welsh), and 39 issues of various magazines are offered on the Magazines of Wales App. In addition, a number of titles are now available as Flash versions for the internet. Users of Gwales, iTunes or Google Play are able to download the latest children's books catalogue completely free of charge, and read it on-line.

Social websites To date, over 1,260 individuals have noted on Facebook that they 'Like' Gwales, and the followers of our Twitter accounts have further increased to 1,800 in Welsh and 1,100 in English. These networks allow us to share, at the touch of a button, all the latest news about activities, awards, promotional schemes and events.

